Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 7. Rhif 11.] TACHWEDD, 1907. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
"Dy 'wyllys wnaer."
Cledlyn Davies.
Trem ar Lydaw.
Sarnicol.
Dydd Barn.
Y Dduwinyddiaeth Newydd.
Dr. John Hunter.
Yr "Hibbert Journal."
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Undeb Cerddorol Undodaidd Ceredigion.

MANTOL-LEN AM 1907.

DERBYNIADAU.

	£	s.	c.
Mewn llaw oddiar 1906...	4	11	8½
Am Ragleni	3	6	7
Eto yn yr Hen Nodiant	1	5	0
Am Anthemau ("Mawr yw'r Ior")	1	1	3
Eto Hen Nodiant ...	0	0	10
Am "Telynau Plant" ...	1	2	4
Eto Hen Nodiant ...	0	1	0
Am "Awn i Ganaan" ...	0	2	2
Eto Hen Nodiant ...	0	0	6
Cyfraniadau yr Eglwysi	3	0	0
Am hen ragleni Hen Nodiant	0	12	9
Casgliadau dydd y Gymanfa:—			
Boreu, £2 11 9½			
Prydnawn, £3 8 2½			
	6	0	0
	£21	4	1½

TALIADAU.

	£	s.	c.
I'r Argraffydd am ragleni	2	18	0
I Curwen am ragleni Hen Nodiant	1	11	0
Am Anthemau ("Mawr yw'r Ior")	0	15	0
Eto Hen Nodiant ...	0	1	2
Am "Telynau Plant" ...	1	1	0
Eto Hen Nodiant ...	0	4	8
Am "Awn i Ganaan" ...	0	4	6
Eto Hen Nodiant ...	0	1	5
Tâl yr Arweinydd ...	5	0	0
I'r Arholydd	1	1	0
Am *Certificates* ...	0	4	6
Tâl yr Ysgrifenydd ...	0	10	0
Postage, &c.	0	10	8½
Tâl am y Neuadd ...	1	5	0
Mewn llaw	5	19	2
	£21	4	1½

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1907. [CYF. VII. RHIF II.

AR EDYN FFYDD.

I.

Paid byw yn niwl y glyn
Mewn cur ac ofn, fy enaid;
Fry, fry ar las y bryn
Mae'r weledigaeth danbaid.

II.

Mae'r ofergoelus fro
O hyd yn llawn lledrithion;
I'r uchel fryn rho dro
Os wyt am wel'd angylion.

III.

Arosaist yn rhy hir
Dan lwyni crinion adfyd;
Os am olygfa glir
Rho dro i Alpau Bywyd.

IV.

Yn niwl ac oerni'r glyn
Mae popeth yn cyfyngu;
Pa uchaf ei i'r bryn
Mae'r Nefoedd yn eangu.

V.

Dos rhagot Enaid mawr
A darnia dy gadwynau;
Dilyna lwybrau'r wawr
Trwy fyddin o gymylau.

VI.

Fe dry pob cwmwl blin
Yn wenfflam dan dy ddwylo;
Ond iti dywallt gwin
A thân dy yni drosto.

VII.

Bydd ffyddiog yn dy nerth—
Daw gwynddydd Duw yn eiddot;
Ar ben pob clogwyn certh
Dy air o hyd fo—Rhagot.

VIII.

Hed yn dy flaen yn hyf
I nenau yr Anfeidrol;
I ti, O! Yspryd cryf
Y plana Duw'r dyfodol.

Alfa.

NODION Y MIS.

GYDA gofid a galar dwys y mae genym y gorchwyl pruddaidd o gofnodi marwolaeth y Parch. William James, B.A., Y.H., Brynhyfryd, Llandyssul, yr hwn gymerodd le ddydd Sadwrn, Hydref y 26ain, yn 59 mlwydd oed. Yn unol a'i ddymuniad, claddwyd ei weddillion yn mynwent Pantdefaid, dydd Mercher y 30ain. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yr un modd yn y capel gan y Parch. J. Hathren Davies, Cefn, a thraddodwyd anerchiad gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, a gorphenwyd ar lan y bedd gan y Parch. John Davies, Alltyplaca. Gadawa Mr. James weddw, un mab a dwy ferch mewn hiraeth a galar mawr.

Yn unol ag awgrym roddwyd gan gyfaill caredig, bwriadwn i'r rhifyn nesaf fod yn rifyn coffadwriaethol am Mr. James. Ysgrifenir gan ei hen gyfaill, y Parch. R. J. Jones, M.A., Sarnicol, ac eraill. Bydd y rhifyn hefyd yn cynwys darlun o Mr. James.

Dymuna Mrs. James a'r teulu gyflwyno eu diolchgarwch gwresocaf i'r llu cyfeillion hyny ddanfonasant air o gydymdeimlad, neu a ymwelsant a hwy yn eu profedigaeth chwerw.

Gwr i'w anwylu a'i edmygu yw y Parch. Jenkin Lloyd Jones, Chicago. Yn ystod ein ymweliad â Gwlad y Gorllewin cawsom aml i orig felus yn ei gwmni. Er ei fod wedi ymfudo o Gymru, pan yn "blentyn côl" ys dywedai ef, eto mae ei galon yn curo yn gynhes gynhes at bobpeth sydd yn anwyl i Gymru, Cymro a Chymraeg. Y mae yn allu er daioni yn ninas fawr Chicago, ac y mae son am dano ar hyd y Talaethau. Daeth ei gyfarchiad i'r YMOFYNYDD pan yn driugain oed yn ddiweddar i law, ac ni wnawn un ymddiheuriad am ei gynwys yn y rhifyn hwn.

"My dear Brother,—Indeed I would have been glad to send the YMOFYNYDD a greeting on its sixtieth birthday. My earliest recollections are associated with it, when its visitation was anxiously looked for by my father and mother in their pioneer log house, and it was read from cover to cover, much of it more than once, and when other privileges failed, it was our home pulpit, when on Sunday afternoon,

the then "Pregeth" was read with true Welsh *hwyl*. But my interest in the little magazine is not confined to my childhood. I have sharpened my Welsh speech on its pages regularly, and it has helped to keep up my own editorial courage during half of its existence, for next March *Unity* will reach its thirtieth anniversary.

But unfortunately your letter comes too late for any word of mine to reach you by the first of September. Perhaps in a subsequent number you will explain the absence and express my regret over the same.

It does not yet appear whether I can be in Boston, for it is a long way from Chicago, but surely, should you cross the sea you will push your itinerary as far as Chicago, and I will give you a royal welcome to the Lincoln Centre, and hope you will be able to extend your visit to the group of the Lloyd Joneses in Wisconsin, where the faith of the father and mother is still honored and cherished.

I write hastily at the close of my "Summer School" and must write briefly. Be assured of a large space in my heart for the YMOFYNYDD and the *Sociniaid* that lie back of it.

Yours for freedom, fellowship and character in religion,

JENKIN LLOYD JONES.

Creodd un o fyfyrwyr Coleg Caerfyrddin gryn syndod yn ddiweddar wrth draddodi ei gyffes ffydd ar adeg ei urddiad. Anibynwr oedd, ac yr oedd yn Anibynwr, (1) Oherwydd cael ei ddwyn i fyny ar aelwyd Anibynol; (2) O argyhoeddiad, nad oedd wedi gweled un rheswm digonol dros roddi i fyny ei Anibyniaeth; (3) Ni ddisgwylid iddo gylymu ei hunan wrth un gredo ystrydebig, ond cawsai berffaith ryddid i roddi llafar i deimladau a phrofiadau ei enaid. Disgwyliai i'r eglwys, pan ffinai ar ei wasanaeth, i ddywedyd hyny wrtho, fel y gallant ymadael a'u gilydd mewn heddwch. Er yn Anibynwr nid oedd yn addaw llafurio i wneuthur Anibynwyr; ei ymdrech fyddai i gyfoethogi y bywyd cyffredinol ac i feithrin a dyfnhau yr yspryd Cristionogol. Dywedir i'r gyffes wneuthur argraff ffafriol iawn ar y gynulleidfa.

Fe gofia ein darllenwyr am Dr. Crapsey a drowyd allan o'r Eglwys Episcopalaidd yn America ychydig yn ol am heresi. Yr oedd yn un o'r rhai fu'n siarad geiriau cryfion yn nghyfarfod mawr y *New Theology* yn Llandudno. Dyma eiriau rhan o'i heresi: "Nid wyf yn dychrynu, yn hytrach teimlaf yn fwy esmwyth, pan y mae ymchwiliadau gwyddonol yn dysgu fod Iesu, mab Joseph, wedi ei eni fel y genid ninau, a marw fel y byddwn ninau farw; ei fod o'i gryd i'w fedd dan gyfarwyddyd yr un Rhagluniaeth Dwyfol ag sy'n ein cario ninau o ddydd ein geni hyd ddydd ein marw; nad yw gwyrth ddim yn help ond yn rhwystr i ddeall ei bersonoliaeth, ei

garictor a'i genadwri." Llefarwyd y geiriau yn Chwefror 1905, ac yn Rhagfyr 1906 trowyd ef allan ar ol treial a barhaodd am bum niwrnod. Yr oedd wedi bod yn offeiriad am 33 mlynedd.

Yn y *Church Congress* yn East Norfolk y dydd o'r blaen, traddododd R. J. Price, yr Aelod Seneddol, araeth gref o blaid Dadsefydliad yr Eglwys. "Y mae'r amserau wedi newid yn fawr oddiar y sefydlwyd yr Eglwys trwy ddeddf. Cyn hyny hi oedd yr unig Eglwys yn y deyrnas. Yn awr, nid tebyg ei bod yn eglwys y mwyafrif yn y wlad. A oedd Eglwyswyr, gyda'u Heglwys Sefydledig, yn gwneuthur eu goreu glas gyda gwaith Duw? Pan elai efe i gyfarfod un o'r enwadau Anghydffurfiol, gwelai'n gyffredin weinidogion enwadau eraill yno, ond nid oedd yr offeiriad yno byth. Trueni mawr oedd hyny," &c —Hyn, sylwer, yn nghyfarfod mawr yr Eglwyswyr eu hunain.

Darllenwyd papyr yn y *Church Congress* gan Deon Lichfield ar "Y Llyfr Gweddi ac Anghenion yr Oes." Amddiffyniad hanesyddol oedd o blaid gwisgoedd neillduol—*historical vestments*. "Yr unig ffordd i ddwyn heddwch i'r Eglwys oedd caniatau heb orfodi y *vestments*." Bu yno ddadl boeth. Haerai Deon Canterbury "nad oedd y *vestments* ond *vestments* y *Roman Mass*." Rhyfedd y pethau gyfrifir yn angenrheidiol i iachawdwriaeth, onide! Rhyfedd y pethau y mae heddwch yr Eglwys yn dibynu arnynt! Pe dadsefydlid yr Eglwys gallai'r brodyr call hyn wisgo fel y mynont—Pais a gwn bach, os leicent!

Y Mesur wedi ei basio—yn gyfreithlawn bellach i ddyn briodi ei chwaer yn nghyfraith! Rhyfedd y gwrthwynebiad fu am flynyddau, ac yn awr cawn yr Archesgob mewn dagrau. *I deplore*, meddai. Galara'r esgobion a'r offeiriaid, lawer o honynt, yn gyffelyb. Ac er gwaethaf y ddeddf wladol, cyfrifa'r Lord Hugh Cecil y fath weithred yn "*sexual vice*." Gedy'r ddeddf yr offeiriad at ei ryddid i weinyddu neu beidio; ond y mae deddf yr eglwys yn ei wneuthur yn agored i gosp neu gerydd. Dywed Archddiacon Wilberforce a Canon Barnet eu bod yn barod i weinyddu; tra mae'r mwyafrif mawr yn gweled yn y weithred y cam cyntaf at Ddadsefydliad yr Eglwys, a gwaeddant fod y *Church in danger!* Y mae un cysur yn aros, i'r rhai sydd am briodi, y gallant fyned i'r *Registry Office*, neu i un o'r capeli anghydffurfiol lle y ceir pob parodrwydd i fyned trwy'r gwasanaeth, a gosod y rhwymyn priodasol yn ddiogel yn ol deddf y wlad. Ystyrir yno nad oes neb yn fwy priodol i ofalu am y plant na chwaer y fam.

Ai gwir yw y dengys plufyn gyfeiriad y gwynt? Ie ynte Nage? Nid oes sicrwydd bob amser, o leiaf, mewn ystyr dduwinyddol. Treiodd Gwili ei law, a sylwer y twrw sydd wedi canlyn—yn *Seren Cymru*. Mentrodd y Proff. Davies, Caerdydd, ond cafodd ei alw i gyfrif yn fuan iawn. Edryched y colegau ati, neu deuant i berygl. Os yw uniongrededd o fwy pwys na gwirionedd rhaid iddynt gyfyngu ar ddarllen y myfyrwyr. Mae'n hen wireb mai anwybodaeth yw mam defosiwn. Cofier mai y bobl sydd yn darllen sy'n tori dros y trasis. Ystyriwn y pwlpud yn gall iawn yn hyn, nad ydynt yn ceisio goleuo gormod ar y bobl. Gofal penaf y set fawr mewn llawer man yw edrych a rhybuddio eu pobl ieuainc na fyddont yn darllen dim tu allan i'r cylch priodol—cylch yr enwad, yn benaf, wrth gwrs. Gesyd y Pab o Rufain bob llyfr na ddylai'r ffyddloniaid ei ddarllen, ar yr *Index Expurgatorius*. Y mae aml i eglwys yn Nghymru a chanddi *Index !*

"DY 'WYLLYS WNAER."

Cyfeithiad o Emyn, "Thy Will be done" (Ch. Elliot).

Fy Nuw, fy Nhad, tra'n crwydro'n mhell
O dref y bwyf ar ymdaith hell,
Dysg im' o galon ddweyd yn well,
Dy 'wyllys wnaer.

Os trist yw llwybrau'm tynged flin,
Yn dawel bwyf,—na ddoed o'm min
Ond gweddi ddysgodd dwyfol rin,
Dy 'wyllys wnaer.

Os wylo'n unig wnaf dan glwy
Ar ol anwyliaid nad ynt mwy,
Yn ufudd eto ateb bwy',
Dy 'wyllys wnaer.

Os gofyn wnest y perl oedd gu,
Nid eiddof oedd—ni wnaethum i
Yn ol ond dychwel d'eiddo di,
Dy 'wyllys wnaer.

Drwy alar dwfn, neu ingol loes,
Os cynar wywo wna fy oes,
Fy Nhad, ymdrechaf ddweyd dan groes,
Dy 'wyllys wnaer.

Yn unig doed i'm calon wyw,
Dy ysbryd addfwyn di i fyw,
Ac am y gweddill, O fy Nuw !
Dy 'wyllys wnaer.

Adfywia'm 'wyllys i bob dydd,
Gwna'n un a'r eiddot, fel na bydd
Dim mwy a'm lluddia 'i ddweyd yn rhydd,
Dy 'wyllys wnaer.

A phan bwyf hwnt i'r bedd a'i saeth,
Y weddi, gynt drwy ddagrau ddaeth,
Mwy ganaf ar ddedwyddach traeth,
Dy 'wyllys wnaer.

CLEDLYN.

TREM AR LYDAW.

II.

Golwg ar y Wlad.

Wele'r eglwys fawr gadeiriol
Yn derchafu ei phigdyrau,
Gerfiodd defosiynol oesau,—
Fry i fro y nef a'r dwyfol.

Gwel y ceinion dyrau marmor,
Godant yn fawreddog nodau
Mawl i Dduw i'r ffurfafenau—
Anthem wedi troi yn fynor.

Boreu Sul ydyw. Mae pobl Sir Aberteifi yn prysur drwsio i fyned i'r capel neu i'r Eglwys, nid trwsio dillad yn unig, ond eu dull a'u gwedd a'u hosgo hefyd. Y mae'r siop a'r dafarn yn nghau, mae'r cryman yn segur dan y to, mae'r anifail yn llonydd ar y maes, mae'r gwas cyflog yn mwynhau oriau gorphwys. Y mae'r wlad yn heddychlon, a rhyw dawelwch nefol yn teyrnasu dros y fro. Rhaid myned i'r cyfandir cyn y gellir gweled gogoniant Sabbath Cymru.

Y mae'r tywydd yn braf, a'r dref yn edrych yn ffres, a'r bobl yn fywiog. Gwelaf dŵr o Lydawiaid y fan draw yn eu dillad brodorol, yr hat gantel lydan a'r rhuban melfed, y got fer, a'r llodrau gleision. Y maent yn ysmocio pibau meinion neu *cigarrettes*, ac yn myned yn ol a blaen i'r siop acw, gan chwerthin a siarad yn uchel. Wrth ddynesu atynt, deallaf mai Llydawaeg siaradant, ac mai brandi yw'r atdyniad i'r siop—"daou wennec" (dwy ddimau) y glas. Yn ddiamheu mae'r Llydawr yn hoff o'i wydryn. Y mae'n wr breuddwydiol, yn treulio llawer o'i amser yn ngwlad hud a lledrith ei ddarfelydd: ac fel y Chinead a'i opiwm, cymer win neu 'win ardant' (brandi) i'w gludo ymaith i froydd hyfryd gweledigaethau.

Cychwynasom am daith allan i'r wlad. Yr oedd y rhan fwyaf o'r siopau'n agored, a'r *cafés* (gwindai) wrth gwrs, ac ar hyd conglau'r heolydd 'roedd yn ffair Gapel Cynon wyllt yn mhobman. Allan yn y wlad gwelem wyr a gwragedd yn eu dillad dydd Sul; ond yr oedd llawer wrth eu gwaith. Cawsom ysgwrs hir gan un yn cludo tail ar ochr y ffordd. Siaradai Lydawaeg, ond dywedai mai ychydig o'r plant oddiamgylch Brest allent siarad yr iaith, ac ni ddysgid hi yn yr ysgolion. Aethom heibio Eglwys, o'r hon y deuai tyrfaoedd o wragedd a phlant yn eu "dillad goreu," ond ychydig wrywod welsem yn dyfod o'r moddion gras.

Buom yn ceisio siarad a llawer ar ymyl y ffordd, er mawr syndod a difyrwch tyrfaoedd o blant, gan nad oeddym wedi clywed y Llydawaeg yn cael ei llefaru o'r blaen. Rhywbeth yn debyg i'r canlynol oedd yr ysgwrs fel rheol:—

"Mintin mad" (Boreu braf).

"Ia, ia, mintin mad."

"Penaoz a rit-hu?" (Sut yr ydych?)

"Mad, ha choui?" (Da, sut ych chwi).

"Me zo mad" ('Rwyf yn dda).

Yna canlynai brawddegau hirion a chyflym yn cynwys ambell i air fel "Saos" (Sais) a 'Brezonnec (Brythoneg) a "lavarit" (llefarwch), ac elai'n nos arnom. Ac nid oedd dim i'w wneud ond gwaeddi—

"Unan, daou, tri, pevar, pemp," &c., codi ein hetiau a gwaeddi "cenafo" (*good-bye*).

Weithiau caem fwy o synwyr o'r iaith drwy ddweyd wrthynt:—"Re vuhan a lavarit" (Rhy fuan y llefarwch), ac wrth iddynt siarad yn fwy araf, deallem gryn lawer o honynt.

Ond ffolineb o'r mwyaf yr hen draddodiad y medr Cymro ddeall iaith gwyr Llydaw gyda rhwyddineb. Gwir fod ugeiniau o eiriau, a llawer o frawddegau yn debyg, ond nid yw y rhain ond cymorth gwan i ddeall y brodorion yn llefaru'n naturiol.

Ond gan fod un o'r cwmni yn medru Ffrancaeg yn rhwydd, a'r gweddill o honom yn ei deall yn weddol, ac yn ei siarad yn drwsgl, cawsom lawer ysgwrs ddyddorol dros ben. Penderfynasom gymeryd y tren i Folgoet, pentref bychan tua 16 milldir o Brest, lle y ceir eglwys dra dyddorol.

Ar y ffordd bu hen Lydawr yn dangos y coed a'r llysiau ini drwy ffenestr y cerbyd, a dweyd eu henwau yn y ddwy iaith. Wele rai o honynt :—Melshen, meillion (*clover*) ; cerch, ceirch ; aleg, helyg ; wn, onnen ; dero, derw ; ffaw, ffawydd (*beech*) ; raden, rhedyn ; cawl, *cabbage* ; cawl glas, *cabbage* gleision ; balan, banadl (*broom*) ; asgal, ysgall, &c.

Y mae ambell i air yn taflu ffrwd o oleuni weithiau. Pwy fuasai yn dweyd mai ystyr wreiddiol *cawl* Sir Aberteifi ydyw *cabbage* ?—h.y., fod yr hylif wedi cymeryd ei enw oddiwrth y llysieuyn, yr hwn a chwareuai ran bwysig iawn yn ngwneuthuriad y cawl ar y dechreu yn ddiamheu. Wrth gwrs, gŵyr ysgolheigion yn dda mai o'r Lladin *caulis* (*cabbage*) y tardd y gair Cymraeg a'r Llydawaeg, a bod y gair eto yn aros yn yr enw *cauliflower*. Ond nid ysgrifenu ar gyfer ysgolheigion yw fy mwriad ; ond rhoddi tipyn o hanes eu cefnderwyr yn Ffrainc i wladwyr Cymreig sydd yn arfer dod o gyrhaedd i'r YMOFYNYDD.

Pentref bychan yn cynhwys dau neu dri dwsin o dai yw Folgoet ; gellid gosod y cyfan o hono tu mewn i'r eglwys sydd yn y lle. Gwledig iawn yr olwg yw'r tai a'r trigolion. Yr oedd wedi haner dydd pan gyrhaeddasom yno, ac yr oeddym yn teimlo'n newynog. Cyfeiriwyd ni i westy bychan ar y llaw chwith fel lle i gael ychydig luniaeth. Nid oedd *sign* o fath yn y byd oddiallan, dim ond dyrnod o ddail iorwg gwywedig yn hongian ar y wal uwchben y drws, yr hyn, mae'n debyg yw *sign* gyffredin tafarndai bychain yn y wlad. Daeth geneth dal, weddus, wylaidd a gwledig ei golwg, a glan ei gwisg, i'n derbyn, a dywedodd wrthym y gallem gael 'bara, aman a gwin gwyn a gwin ruz (coch).'

Treuliasom awr neu ragor yn ystafell y cefn i orphwys, ac yr oedd y bara a'r ymenyn a'r *omelettes* (wyau wedi eu rhostio mewn dull neillduol) yn dra rhagorol, a'r cyfan yn rhyfeddol o rad.

Oddiyma aethom i'r Eglwys, lle yr oedd cyfarfod y prydnawn ar derfynu. Nid oedd yno ond benywod ; un o honynt yn adrodd gweddiau yn Lladin gyda chyflymder teilwng o'i rhyw, a'r lleill yn ateb ar ei hol. Yr oedd adsain y lleisiau rhwng muriau hynafol yr Eglwys, gwedd a gwisg dramoraidd y gwragedd, agwedd ddifrifol a chrefyddol yr arweinyddes, swn dieithr yr iaith, a'n diwyg annifrifol ninnau'r edrychwyr, yn gwneud yr olygfa a'r sefyllfa yn rhyfedd dros ben.

Tuallan i'r Eglwys y mae 'Calfaria,' hyny yw, cerflun o Grist ar y Groes, wedi ei ddyrchafu ar sail ysgwar o feini, a cherfluniau eraill (o faen hefyd) o gwmpas troed y Groes. Yma y del y defosiynol i ddweyd ei *Bader* a'i *Ave Maria* ar unrhyw awr o'r dydd. Y mae cannoedd o honynt, rhai'n arw ac anghelfydd, ereill yn fawreddog a chostus, yma a thraw hyd y wlad. Y mwyaf yw Calfaria Plougastel-Daoulas (ar lan bau Brest), a godwyd yn 1603 yn offrwm diolchgarwch am waredigaeth o'r pla ofnadwy a fu'n gwneud galanasdra drwy'r wlad am 20 mlynedd. Y mae dros 200 o gerfluniau ithfaen (*granite*) oddiamgylch y groes yma, yn arddangos prif ddigwyddiadau bywyd a marwolaeth Crist.

Y mae hanes Eglwys Notre Dame du Folgoet yn dra dyddorol. Ystyr Folgoet yw Ffôl-y-coed neu Ffwl-y-coed, ac fel y canlyn y rhed y traddodiad :—

"Tua blwyddyn Oed Crist 1350, yn nhiriogaeth Les-Nefen (Llys Nefyn) yr oedd yn byw fachgen ieuainc gwan ei synwyrau, o'r enw Salaun (Solomon). Gymaint oedd ei wendid meddyliol fel na ddysgodd

erioed yn yr ysgol ragor na'r deu-air 'Ave Maria' (Henffych Fair), y rhai a adroddid ganddo yn ddibaid.

Gan i'w rieni farw, gorfu arno fyned oddiamgylch y wlad i gardota; nid oedd dim arall iddo i'w wneuthur er enill ei fara. Gwnai ei lety mewn coed, yn ngongl plwyf Guic-Ellean, yn agos i ffynon. Ni orweddai ar wely amgen y ddaear noeth, o dan goeden gysgodol gam, yr hon oedd yr unig do uwch ei ben. Elai bob boreu i dref Les-Neven, rhyw dair milldir o'i orphwysle, i wrando'r offeren lle y llefarai yn ddibaid: "Ave Maria," yn ei iaith ei hun, "O! Itroun Guerchez Mari" (O Foneddiges Forwyn Fair).

"Wedi gwrando'r offeren, ai i'r dref i ofyn elusen, yr hyn a gai yn rhwydd gan y trefwyr a'r milwyr ar yr heol. Yna dychwelai i'w lety yn y coed, torai ei fara, a gwlychai ef yn nŵr y ffynon, a bwytai ef heb unrhyw enllyn ond enw *Mair*, yr hwn adroddai ar ol pob tamaid. Pan fai'r tywydd yn oer, elai hyd ei gesail i ddwr y ffynon, ac arosai felly amser hir, dan ganu'n barhaus enw'r *Forwyn Fair*. Yna, gwedi gwisgo ei ddillad, elai i ben ei goeden, a chan siglo ei hun ar un o'r cangau, bloeddiai nerth ei ben, "O Mair! O Mair!" Bu fyw yn y modd hwn am tua 40 mlynedd, heb un amser beri tramgwydd na gwneuthur yr un niwed i neb. Tua'r flwyddyn 1358, goddiweddyd ef gan glefyd, gofynodd am offeiriad Guic-Ellean er mwyn ei gyffesu; gomeddodd adael ei le yn y coed, ac mewn ychydig amser bu farw, ar y cyntaf o Dachwedd, Gwyl yr Holl Senitiau. Claddwyd ei gorff yn mynwent Guic-Ellean, heb wasanaeth o fath yn y byd.

"Yr oedd pawb wedi gorphen siarad am dano, pan anwyd lili wen o bridd ei feddrod, blodeuyn odiaeth o hardd, yn taenu perarogl hyfryd ar bob llaw, a pheth sydd yn fwy rhyfeddol fyth, gwelwyd ar ddail y lili, mewn llythyrenau o aur, y geiriau hyn:—"*Ave Maria!*" Taenodd son am y wyrth hon yn fuan ar hyd y wlad; daeth pobl o bob cyfeiriad i weled y blodeuyn, yr hwn a barodd yn ei harddwch am tua chwech wythnos; yna dechreuodd wywo.

"Aeth yr offeiriad ac eraill i chwilio pridd y beddrod i weled o ba le y tarddai gwreiddyn y lili, a chawsant mai o enau'r marw y delai'r blodeuyn allan, yr hyn a'u synodd yn ddirfawr. Yna penderfynwyd cadw mewn cof y wyrth hon drwy godi capel ar y fan lle y trigasai Salaun wirion er anrhydedd y Forwyn Sanctaidd, a galw'r adeilad *Ar-Follcoat*, h.y., Coed y Ffol.

"Duc Montforte, wedi clywed hyn, a wnaeth adduned i Fair y Forwyn y codai Eglwys Waddolog yn yr un fan, os y deuai ef yn berchenog heddychlawn, drwy ei chymorth hi, ar diriogaeth Llydaw. Ac mewn gair, yn 1364 daeth y cyfan oddiamgylch fel y dymunasai y Duc, a chan ei fod yn aros yn Les-Nefen yn mis Ionawr, gosododd gareg sylfaen gyntaf Eglwys Notre-Dame-du-Folgoet."

Prynais er dimau gân Frythoneg a werthid mewn siop tu allan i'r eglwys; ei phenawd yw—

KANTIG PELERINED AR FOALGOAT.

(Canig Pererinion y Ffol-goed).

Wele un penill o honi:—

Salaun, var skour, he vezen,
Evit kaout he vara,
Ne lavare ken peden
Nemet: O Maria!
Emaomp en Ilis Santel,
Savet var bez ar foll,
Mari! Ni deu d'ho kervel;
Mirit n'ez aimp da goll!

(Salaun, ar gangen ei bren, er cael ei fara, ni ynganai un weddi, ond, O Fair! Yr ydym yn yr Eglwys Sanctaidd yn sefyll ar fedd y gwallgofddyn (ffol). Mair, ni a ddeuwn i alw arnat; gwared ni rhag myned i ddystryw).

Gofynais i'r eneth ysgrifenu ei henw ar y gân, a gwelaf yr ysgrifen eto mewn llaw fenywaidd brydferth,

Ambroisine Corbé. Law fechan wen Lydewig! ond odid na'th welaf byth mwy; pa un ai cryndod ieuanc serch neu anesmwythyd parlysol henaint fo'n dy ysgogi, gafaeled y nefoedd yn dirion ynot, arweinied di drwy burdeb bywyd i mewn i'r purdeb diddiwedd. Dyna weddi'th gefnder dinod o Walia.

Annyddorol a marw yw desgrifiad o eglwys gan ysgrifbin neb ond Ruskin; ac ni chynygiaf ar yr antur. Yn unig gosodaf ar gof ddylanwad ar fy nheimladau y meini breision llwyd, y pig-dyrau henafol, y dorau derw oesol, ac adsain y blynyddau ydynt megys yn trigianu y conglau tywyllion rhwng y pileri a'r nenfwd bwaog. Yn sicr y mae mawredd Duw yn cael ei arddangos yn yr Eglwys Gadeiriol. Y mae swn moliant y Tragwyddol i'w glywed yn ngherddoriaeth fud y marmor, a'r pigdyrau, fel nodau arddunol, yn ymgodi o'r llawr gan gyfeirio beunydd i daweledd nef y nefoedd. Duw yn ei ardderchawgrwydd palasaidd welir yn trigianu yn eglwysi Llydaw. Y Tad nefol yn byw yn gartrefol yn mysg ei blant a welir yn nghapelau diaddurn, ond cartrefol, Cymru.

Y mae'r Eglwys fawr Gatholig yn cynyrchu defosiwn, a chapeli bychain Cymru yn cynyrchu cariad. Ellir cael y naill heb y llall? Beth bynag am hyny y mae'n dra sicr fod eisiau'r ddau—defosiwn a chariad wedi eu cyfuno. Hir yr erys ar fy nghlust adsain y gwragedd yn adrodd eu gweddiau yn Eglwys y Foelgoet; byth ni anghofiaf y penwisgoedd gwynion a'r dillad duon, y gwynebau caruaidd tywyll, y dwylaw celyd, gweithgar, sy'n dwyn y llyfr pader ar y Sul, y wedd ddefosiynol isel, arwydd y Groes wrth fyned allan, a'r wedd ddifrifol, wylaidd, ar wyneb pob merch. Yn sicr, pan y mae bod dynol ar ei iselaf, y cyrhaedda'r uchelion.

Y mae'r Llydawr yn grefyddol, ac arweinir ef weithiau i eithafion gan ei deimladau a'i ddarfelydd, ac el yn ofergoelus. Y mae'r un teimlad bywiog yn ei arwain bryd arall i'r gyfeddach, gan drachtio gormodedd gwin.

Ond wedi treulio ychydig oriau yn mhentref gwledig Folgoet, aethom yn ol eto gyda'r tren i Brest. Wrth gwrs, ni edrychir ar y Sabboth yma fel y gwneir yn Nghymru. Pan allan o'r Eglwys ni ystyrir fod prynu a gwerthu a mwynhau yn bechodau, ond yn hytrach yn ddyledswydd ar bawb. Ac yn y tren yr oedd pawb yn llawn stori a llawenydd, a'r bibell a'r *cigarettes* yn mygdarthu'r lle ag arogl digon an-Sabbothol. Y mae'r offeiriad yn holl-bresenol; perchir ac ofnir ef gan y werin anwybodus, a diystyrir a chasheir ef gan y rhai a gyfrifant eu hunain wedi ymryddhau o hualau anwybodaeth. Ca ormod teyrngarwch gan y naill, a gormod anghyfiawnder gan y llall. Yn dra aml y mae'r bugail Pabyddol yn ddigon tywyll ei ben a llygredig ei galon, ond brydiau eraill y mae'n wr llawn goleuni a serch.

Yr oedd un o'r offeiriaid yn trafaelu yn ein cwmni, a chlywai ni yn dal ysgwrs ieithyddol a rhai o'r Llydawiaid. O'r diwedd gosododd bapur ger ein bron yn cynwys rhyw enwau cyfrin Llydewig gan ofyn i rywun eu cyfieithu. Gan nad oedd ystyr yn y byd i'r geiriau nid oedd neb a fedrai wneud dim o honynt. Ac nis cafwyd fawr toraeth gan yr offeiriaid chwaith. Ond sisialodd un Llydawr wrthym—M. Branellec, ein lletywr,—a dywedodd, "Ychydig ŵyr ef am Lydawaeg, mi wrantaf!" A gofynodd i'r offeiriad coeg-hyddysg am gyfieithu y frawddeg, "*Uu chevalier de la legion d'honneur.*" Aeth y Pab yn fud, ac ni cheisiodd mwyach ddangos ei ddysg ieithyddol i'r cwmni. Sylwais fod yr un offeiriad yn smocio pib glai yn y tren. Y mae ysmygu yn arwydd o fawredd yn aml, rhaid cyfaddef, ond rywfodd neu gilydd, yr oedd gweled y gwr hwn yn tynu ei getyn clai mewn tren ar brydnawn Sul yn dra gwrthun i Gymro, yn enwedig pan yr oedd yn amlwg fod anwybodaeth wrth wraidd yr oll.

Dydd Llun, gwelsom orymdaith o forwyr Ffrainc a Japan yn ystrydoedd

Brest, pob Ffrancwr yn cymeryd Jap yn ei fraich. Yr oedd tua 500 o honynt, a golygfa hardd oedd gweled y bechgyn ieuainc cryfion hyn yn eu dillad gleision, a gwyneb gwyn y Ffrancwr yn troi mewn cyfeillgarwch at wyneb melyn bachgenaidd y Jap. Siaradai swyddogion y ddwy genedl Saesneg, ond nid oedd gan y morwyr cyffredin ddim i'w wneud ond ceisio deall eu gilydd drwy ystumiau, drwy chwerthin, a dweyd, *Oui*, *Oui*, y naill wrth y llall. Dilynais hwynt i'r neuadd lle yr oeddynt i giniawa, a thrwy rym haerllugrwydd a llyfr nodau yn fy llaw, cefais fyned i fewn i'r drws, ac mewn gwirionedd gofynodd Ffrancwr—gohebydd papur—i mi fyned i mewn, gan gymeryd yn ganiataol mai cynrychiolydd rhyw newyddiadur Saesneg oeddwn. Ond meddyliais ei bod yn bosibl nas gwyddent am yr YMOFYNYDD yn y rhan hono o'r byd ; ac arosais wrth y ddor. Yn y man galwodd Ffrancwr arnaf. Yr oedd mewn penbleth i ddeall rhywbeth a ysgrifenasai ei gyfaill y Jap ar bapur iddo, a chan gymeryd yn ganiataol fy mod yn deall Saesneg, gofynodd i mi os gallwn ddweyd wrtho beth oedd geiriau'r Jap. Yr oedd y morwr melyn wedi ysgrifenu mewn llaw hollol eglur, ac mewn Saesneg dianaf, *I am very glad to be here with you to-day*. Nid anhawdd oedd cyfieithu'r frawddeg i'r Francaeg, ac yr oedd y ddau yn berwi gan ddiolchgarwch—a gwin. Rhoddodd y Jap i mi ei gerdyn a'i enw'n argraffedig arno mewn llythyrenau dwyreiniol a Rhufeinig, ac enw'r morwr Ffrengig mewn *pencil* yr ochr arall i'r cerdyn. Rhodd y Jap hefyd ar ddeall i mi, mewn Saesneg syml a bratiog, y buasai'n dda ganddo ddangos ei long i'm cyfeillion a minnau.

Ychydig amser yn ddiweddarach ar y stryd gwelsom ddau Jap arall mewn penbleth yn ceisio cael gan blisman eu cyfeirio i ryw fan yn y dref, ac yn ei fyw nis gallai gwr yr heddwch eu gosod ar ddeall. Felly cymerodd fy nghyfaill a minau y ddau fachgen melyn yn ein braich, ac aethom gyda hwy gryn bellder i'r fan a ddymunent—yr oedd y cyfeiriad yn ysgrifenedig ganddynt ar bapur. Siaradai rhai hyn eto ychydig Saesneg, ond rhaid cyfaddef mai "Yes, yes" oedd baich eu hymadrodd, pa un a gytunent a ni ai peidio.

Rhodd rhai'n eto eu cardiau i ni, gyda siars benodol am fyned i'w gweled ar y llong "Ksukubah" boreu tranoeth. Wrth gwrs, cymerasom y fantais. Y mae gweled y bobl hyn—nad oeddynt ddoe, i'n tyb ni'r gorllewinwyr, ddim amgen na barbariaid anwar, wedi cofleidio dysgeidiaeth Ewrob—yn creu argraff ryfedd. Y maent yn llawn balchder dysgeidiaeth newydd, yn nwyfus gan win nerthol ieuenctyd, a chryfder y gwin hwnw wedi effeithio yn ormodol ar rai o honynt. Y mae eu gwynebau yn iach ond amhrydferth ; y mae'r meddwl yn fywiog a'r teimladau yn gynes, ond nis gellir mabwysiadu gwareiddiad newydd mewn un genhedlaeth. Y mae hunangarwch barbaraidd yn amlwg wrth wraidd eu holl ysgogiadau, a'r syniad o frawdgarwch cyffredinol dynoliaeth heb afaelyd ynddynt. Gwladgarwch yw eu crefydd ; a'r ymherawdwr yw eu duw. Na, ni eill dysg chwarter canrif uno dwyrain a'r gorllewin. Fel y canodd Kipling :—

'For East is East, and West is West,
But never the twain shall meet.'

S.

DYDD BARN.

"A Mab y dyn, pan ddel yn ei ogoniant, a'r holl angelion sanctaidd gyd âg ef, yna yr eistedd ar orseddfaingc ei ogoniant; a chyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genhedloedd: ac efe a'u didola hwynt oddi wrth eu gilydd, megis y didola y bugail y defaid oddi wrth y geifr: ac a esyd y defaid ar ei ddeheulaw, ond y geifr ar yr aswy."—MATT. 25: 31—33.

JAMES THOMAS. — Gwelais chwi yn yr angladd ddoe; beth feddyliech chi am y bregeth?

THOMAS MORGAN.—Wel, a dweyd y gwir, 'chlywais i erioed ddim mwy rhyfygus. Os gwir dd'wedodd y pregethwr, gallwn roddi ffarwel i'r Beibl a ffarwel i'r Llyfr Gweddi, a *good-bye* i'n crefydd i gyd.

J.T.—Gobeithio nad ydy pethau ddim mor ddifrifol a hyna. Nid w i'n sicr fod crefydd yn seiliedig ar ddim y taflwyd amheuaeth arno gan y pregethwr.

DAVID JONES.—Ydw i'n credu'n agos yr un fath a Mr. Morgan. Mae nghrefydd i yn y Beibl; ac os colla' i'r Beibl, fydd geno i 'r un grefydd o gwbl. 'Dalla i ddim llai na meddwl fod y pregethwr yn rhyfygus yn wyneb geiriau pendant yr ysgrythyr. "Yr holl ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysprydoliaeth Duw," &c. (2 Tim. 3: 16, 17); gwadu, gwadu, gwadu, mae'n gwneud i 'ngwaed i ferwi; ond dyna ydw i wedi glywed erioed ydyw nodwedd wahaniaethol yr enwad y perthyn y pregethwr iddo. Ni fum erioed yn gwrandaw ar yr un o honyn nhw o'r blaen, a pheth sicr yw nad af fi byth eto.

JOHN WILLIAMS.—Dyna ddweyd cryf o leiaf; ond dweyd digon afresymol yn fy ngolwg i. Perthynaf fi i'r un enwad a'r pregethwr, ac ar y cyfan credaf iddo ddweyd llawer oedd yn newydd i'r gwrandawyr, a llawer o'r llawer hyny yn rhesymol ac yn wir. Gyda golwg ar y gwadu y cyhuddir ni o hono, nid ydy ni'n fwriadol yn gwadu dim sydd yn wir; er fod ein gelynion yn ein cyhuddo ni o hyny.

D.J.—Yr oedd y pregethwr yn gwadu'r Beibl; 'dallwch chi ddim amheu hyny.

J.W.—Y mae'r pregethwr yn gosod esponiad gwahanol arno i chwi. Byddwn ni fel enwad yn caniatau i awel fain o diriogaeth rheswm i chwythu dros holl fanau ein ffydd.

T.M.—O, ie, rheswm, wrth gwrs, dyna glo ar y cwbl; gan anghofio mai peth yn perthyn i ffydd yw crefydd ac nid i reswm.

J.W. — Ac eto, onid *ymresymu* fyddwch chi pan yn fy ngwrthwynebu i? Peidiwch dibrisio rheswm, rhodd Duw ydyw, y lamp osodwyd gan Dduw yn llaw dyn i'w alluogi i ymlwybro yn iawn drwy ddyrys daith y bywyd hwn. Ond gadewch i ni gadw yn agosach at bwnc y pregethwr, yn lle bod mor wasgarog yn ein sylwadau.

J.T.—Y pwnc oedd Dydd Barn, onid e, ac mor bell ag y gellais i ei ddeall fe'i gwadodd yn gyfangwbl. Mae'n bosibl, fodd bynag, na ddeallais i ef. Y mae llawer o dywyllwch yn gorwedd dros y pwnc, fel y cawn ef yn yr ysgrythyr.

J.W.—Os felly, gadewch i ni roi tipyn o sylw i'r pwnc a pheidio dal gormod ar y llythyren sydd yn lladd (2 Cor. 3: 6). Cymeryd pethau yn rhy lythyrenol fyddwn ni, pobl hinsawdd oer y gorllewin, yn rhy gyffredin, gan anghofio hoffder y dwyreinwyr o lefaru mewn ffigyrau, a'u harferiad felly o roi gwedd eithafol, cyffelybiaethol, barddonol ar bethau. Ceisiwn fyn'd trwy'r plisgyn at y cnewyllyn o wirionedd sydd wrth wraidd yr amryw ffurfiau.

J.T.—Gadewch wel'd, fe gymerodd bedwar pen, onid do? Pwy yw'r Barnwr? Ie 'r Pwy, Pa le, Pa bryd, Pa fodd?

D.J.—Be waeth am y pregethwr a'i syniadau? Os gwnaeth e sarn o'r

Beibl, nid oes achos i ni wneud yr un peth.

J.T.—Nac oes. Gadewch i ni ddal y Beibl ac yntau wyneb yn wyneb, a dal gafael ar yr un pryd ar ofynion rheswm a synwyr cyffredin. Mi dybia' i mai eisiau'r gwir sydd arnom bawb. Nid oes dim gorfod ar neb i dderbyn gosodiadau'r pregethwr yn groes i'w ewyllys. Ond doeth gwrandaw, doeth "profi pob peth," ac yna dal yr hyn sydd dda. Fe raid i bob gosodiad o'i eiddo fyned drwy ddrws fy rheswm i mi cyn y rhoddaf dderbyniad iddo.

D.J.—O, ie, Rheswm eto, Rheswm cnawdol! Gwyliwch, a chofiwch fod y fath beth a thwyll-resymeg, a rhwyd o fath na fedr y dyn cyffredin mo'i ddianc. Rw' i'n ofni, ac felly dyma fi'n eich gadael.

J.T.—Peidiwch bod yn goward. Daliwch eich tir. Gellwch ddwyn pob peth at y gair a'r dystiolaeth. Dywedir weithiau fod y Beibl yn darian ac amddiffyniad digonol. Nid yw'r gwir yn beth i'w ofni.

D.J.—Na, 'rwy'n myn'd. Duw fo gyda chwi.

J.T.—Drwg genyf i'r brawd anwyl D.J. fethu dal i wrandaw ar ein tipyn ymddiddan tawel cydrhyngom a'n gilydd. Nid oes dim eisiau i'r gwir fod mewn ofn.

J.W. — Proffesa'r enwadau oll gredu'r hen wireb, "Mawr yw gwirionedd, ac efe a lwydda!"

T.M.—Gosoder gwirionedd a chyfeiliornad wyneb yn wyneb, a hawdd gwybod pa un a ddiflana.

J.T.—Yr ydych chi, J.W., yn cofio sylwadau'r pregethwr ar y "Pwy."

J.W.—Nid wyf yn sicr; ond gallaf roi'r sylwedd. (1) Duw sydd yn barnu, yn barnu pawb, Heb. 12 : 23; y cyfiawn a'r anghyfiawn; yn dwyn pob gweithred i farn, Preg. 3 : 17; 11 : 19. (2) Y mae'n rhoi pob barn i'r Mab, Ioan 5 : 22; yr hwn sydd felly yn barnu dirgeloedd dynion, Rhuf. 2 : 16; mae'n barnu'r byw a'r meirw, Actau 10 : 42; 2 Tim. 4 : 1. (3) Nid yw Iesu yn barnu neb, Ioan 8 : 15; ni ddaeth efe i farnu y byd, ond i achub y byd, Ioan 12 : 47. (4) Yn *awr* y mae barn y byd hwn, Ioan 12 : 31—yr oedd ei ddyfodiad yn farn ar bawb a'i clywent ac a'i gwrandawent, Ioan 12 : 31.

J.T.—Yr ydych wedi cofio'n dda. Fe ddywedodd hefyd fod Moses yn barnu, Luc 16 : 29; yr apostolion yn barnu, "pan eisteddo Mab y dyn ar orsedd ei ogoniant, eistedd chwithau ar ddeuddeg gorsedd yn barnu deuddeg llwyth Israel, Matt. 19 : 28.

T.M.—Yr ydych wedi cofio'n dda eich dau; ond be' well? Nid ydych ond wedi landio eich hunain mewn dyryswch. Yr ydw i wedi clywed digon, ac y mae'n well geny' adael y mater yn llaw'r dysgedigion. Nid yw'r pwnc yn siwtio fy math i. Felly, da y b'och. Nos da.

J.W.—Y mae ofn ceisio'r gwir ar ddynion; fedra nhw ddim canu,

"Chwilio'r ydym am wirionedd,
Prif oleuni teyrnas nef," &c.

J.T.—Ydych chi'n cofio iddo ddywedyd hefyd fod y Koran yn dysgu y bydd yr holl bobl yn casglu 'nghyd i ddyffryn Jehosaphat a bydd Mohamet yn cyhoeddi barn arnynt.

J.W.—Ceir awgrym tebyg yn Joel 3 : 12, "Deffroed y cenedloedd, a deuant i fyny i ddyffryn Jehosaphat: oherwydd yno yr eisteddaf (Duw) i farnu yr holl genedloedd o amgylch." Daearol iawn, fel yr ymddengys i mi, yw'r syniad wrth wraidd geiriau fel hyn, yn enwedig os cymerir hwy yn llythyrenol; ac nid ydys mewn amser diweddarach wedi gwella dim ar y mater wrth ddywedyd fod y gareg welir heddyw ar gaerau Jerusalem, ac ar y cornel sy'n gwynebu'r dyffryn lle y cynullir y cenedloedd, wedi ei gosod yno'n bwrpasol i'r Barnwr eistedd arni ar y Dydd Mawr.

J.T. — Mae'n amlwg nas gellir cymeryd hyn oll yn llythyrenol, a da y dywedodd y pregethwr y dylid ceisio rhyw egwyddor gyffredin os gellir fydd yn fwy neu lai o help i gysoni'r oll.

J.W.—O'r goreu, ond gadewch i ni 'n gyntaf droi i fyny rai adnodau eraill a allant fod yn help yn nghyf-

eiriad goleuni gwell. Ceir rhagor yn barnu. Medd Paul, 1 Cor. 6 : 2, 3, Oni wyddoch chwi y barna y *saint* y byd? — a thrachefn, Oni wyddoch chwi y barnwn *ni* angylion? I fyned yn ol at Ioan eto, sylwer yn fanwl, 3 : 17, 18, 19, Ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd i *farnu* (R.V.) y byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo ef. Yr hwn sydd yn credu ynddo ef ni *fernir* (R.V.); eithr yr hwn nid yw yn credu, a *farnwyd* (R.V.) eisoes, oherwydd na chredodd yn enw unig-anedig Fab Duw. A hon yw y *farn* (R.V.) ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni. Eto Ioan 12 : 48, Y gair a leferais i, hwnw a'i Barn ef yn y dydd diweddaf. A Phaul drachefn, 1 Cor. 11 : 31, 32, Canys pe iawn farnem ni ein hunain, ni'n bernid: eithr pan y'n bernir, y'n ceryddir gan yr Arglwydd, fel na'n *condemnir* gyda'r byd.

J.T.—Wel, wel, yr ydw i'n ofni ein bod wedi pentyru cruglwyth o anghysonderau na fedrwn ni byth eu dadrys. I nodi un enghraifft, sut y gall Iesu fod yn Farnwr, a pheidio bod ar yr un pryd? A ydyw'n bosibl cael gafael ar ryw gynllun i gymeryd i fyny yr amryw osodiadau hyn a dal ar egwyddor fydd fwy neu lai yn unoliaethu yr oll, fel y gwna'r magnet ddal ar y gronynau haiarn yn nghanol llestraid o swnd.

J.W.—Ceir awgrym da iawn i'r perwyl yn un o'r adnodau ddyfynwyd —Y *gair* a leferais i wrthych, &c. Y gair hwn, y mae wedi profi'n gyfodiad ac yn gwymp i lawer, nid yn unig yn Israel, ond mewn manau eraill; a lle bynag y clywir ef, fe'i gwelir yn didoli y defaid oddiwrth y geifr, yn debyg fel y gwna'r tynfaen (*magnet*) a'r gronynau haiarn a gro. Pan fo geiriau'r Crist yn myned allan, ceir y defaid yn wastad yn myn'd i'r dde, a'r geifr i'r aswy. Y ddeddf a roddwyd trwy Moses, ond y gras a'r gwirionedd trwy Iesu Grist. Y ddeddf ac nid yr efengyl sydd yn barnu ac yn condemnio, Ioan 1 : 17. I farn y daethum i'r byd hwn; fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled, ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion, Ioan 9 : 39. Tra mae rhai yn caru'r goleuni, y mae eraill yn ei gasbau am fod eu gweithredoedd yn ddrwg. Y bobl gyffredin, pysgotwyr glan môr Galilea er enghraifft, gwrandawant yn ewyllysgar, ond yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, grwgnach a gwrthwynebu wnant hwy. Nid ewyllys y Crist, ond y gwirionedd ei hunan sydd yn cyhoeddi'r ddedfryd. Y gair, yr egwyddor, dyna sy'n barnu yn mhob oes ac yn mhob gwlad. Dygwyd Galileo (1633) o flaen y Chwil-lys—cyfansoddedig o saith o Gardinaliaid — i'w dreio am heresi. Ei heresi oedd dywedyd mai'r haul oedd yn sefyll a'r ddaear yn troi o'i amgylch. Galwyd arno i ymwrthod a'r fath heresi melldigedig. Gwaharddwyd darllen ei lyfr a dedfrydwyd yntau i garchar, ac i fyned dan y penyd o adrodd y saith Psalm Edifeirwch* un waith bob wythnos am dair blynedd. Ac ar hyny, dyna'r hen wr hwn, yn driugain a deg oed, ar ei liniau, â'i ddwy law ar y Beibl, yn ymwadu a'i opiniynau. Tybiai'r saith druain eu bod yn cyhoeddi dedfryd ar Galileo ac ar gyfundrefn Copernic; tra mewn gwirionedd cyhoeddasant ddedfryd arnynt eu hunain ac ar eu Heglwys. Gosodasant ar lechau tragwyddol hanes eu bod hwy, yr Eglwys Gatholig Rhufeinig, sydd yn hawlio anffaeledigrwydd mewn materion ffydd, wedi cyhoeddi trwy eu Llys uwchaf, fod cyfundrefn Copernic yn heresi, ac ar yr un pryd wedi dangos i'r byd fod eu honiad o anffaeledigrwydd yn anwiredd noeth. A hon oedd y farnedigaeth fod goleuni wedi dyfod

---

* Dyma'r saith Psalm: 6, 32, 38, 51, 102, 130, 143. Y Pab Innocent III. orchymynodd eu hadrodd yn y Garawys. Gosodir hwy gyda'u gilydd yn y *Breviary* Rhufeinig, ac addewir maddeuebau (*indulgency*) i'r sawl a'u hadroddant.

i'r byd, a'u bod hwy wedi dewis y tywyllwch yn hytrach na'r goleuni. Ac felly y mae yn wastad, pan gyhoeddir gwirionedd newydd i'r byd, mae'n denu y rhydd eu meddwl, y rhai a garant y gwir; mae'n gyru i ffwrdd y rhai sy'n rhwym i bechod neu o dan ddylanwad hunan-les.

J.T.—Mae'r wawr yn tori. Credaf fy mod yn gweled ei lewyrch gwan yn tori drwy gaddug y tywyllwch. Y fath fantais yw cael ail gyfleu ar beth. Yr oedd llawer yn ymddangos yn dywyll i mi ar ol clywed y pregethwr, ond yn awr y mae'r awyrgylch wedi clirio'n fawr. A'i osod yn fyr, ymddengys i mi yn awr fod yna un egwyddor fawr yn cofleidio'r oll; a'r egwyddor hono yw, y bernir pob dyn yn ol y defnydd a wnaeth o'i fanteision a'i gyfleusderau. Yn yr ystyr hwn y golygwn ni fod Duw yn Farnwr, ac Iesu'r un modd, a Moses a'r Apostolion, a Mahomet, &c. Ymddengys yr egwyddor i mi yn deg ac yn gyfiawn yn mhob cyfeiriad,—i'r Iuddew a'r Groegwr, i'r caeth a'r rhydd, i'r Cymro a'r Sais, i'r Hindwad a dysgybl Mahomet, i'r Pagan a'r Cristion. Fe fernir pob un yn ol ei ffyddlondeb neu ei anffyddlondeb i'r goleuni a'r wybodaeth mae wedi gael. Nid teg dysgwyl i anwariaid ynysoedd Mor y De fesur yr un faint a Christionogion Prydain yr ugeinfed ganrif; ac o fesur yn deg gallwn weled y posibilrwydd moesol fod yr anwar ffyddlawn yn fwy cymeradwy na'r Cristion anffyddlawn. Onid dyna ystyr geiriau Crist pan y dywed, "y daw llawer o'r dwyrain a'r gorllewin, ac a eisteddant gydag Abraham ac Isaac a Jacob yn nheyrnas nefoedd; ond plant y deyrnas a deflir i'r tywyllwch eithaf, Matt. 8 : 11, 12.

J.W.—Da genyf ein bod yn nesu at ein gilydd o ran teimlad a barn, er nad yw hyny y peth pwysicaf yn fy ngolwg i. 'Ddeallais i erioed pam na all Cristionogion o bob enwad gadw undeb yr yspryd yn nghwlwm tangnefedd. 'R wy'n falch ac yn ddiolchgar am ein hymddiddan. Nid ydym wedi adolygu'r oll, a charwn gael cyfle i fyned gyda chwi dros y gweddill—y Pa le, Pa bryd, Pa fodd. Drwg iawn genyf i ni frawychu'r ddau frawd arall. Paham nad allwn ni gytuno i anghytuno?

J.T.—Ie 'n wir, paham! Eisieu'r gwir fydd arna i bob amser, ac eled y gyffes a'r gredo i'r ystlymod a'r wadd, oni allant sefyll yn wyneb goleuni y gwirionedd.

J.W.—Buan fo'r cyfleusdra i gwrdd eto. Da y b'och.

J.W.—Da y b'och.

B.C.D., Cofnodydd.

Y DDUWINYDDIAETH NEWYDD.

Yr oedd yr areithiau draddodwyd yn y Cyfarfod Blynyddol yn Aberdar, ar ol i'r Parch. S. Jones, B.A., ddarllen papyr ar y testyn uchod, yr hwn ymddangosodd yn rhifyn Awst, mor dda fel nad ymesgusodwn am gyflwyno rhai o'r meddyliau yma.

Y Parch. D. G. Rees, Penybont,

a ddywedai fod yn rhaid i bob oes gymhwyso ei duwinyddiaeth i ateb gwybodaeth ac yspryd yr oes hono. Y mae credoau y bedwaredd a'r bumed ganrif allan o gydgordiad ag yspryd yr ugeinfed ganrif. Y mae crefydd y ganrif newydd yn hawlio i ni ddwyn ein hen ddillad duwinyddol allan i oleuni haul a'u hawyro yn dda. Ac os ydynt mor hen, a gorchuddiedig gan lwydni amser, ac wedi eu bwyta gymaint gan bryfed y canol-oesau, yna y mae yr ugeinfed

ganrif yn hawlio yn enw pob daioni a gonestrwydd eu taflu o'r neilldu, a mynu rhywbeth mwy addas i guddio ein noethni crefyddol, neu, i newid y ffigwr, y mae yr hen amddiffynfeydd crefyddol y rhai fuont yn ddigon cadarn i wrthsefyll *blunderbusses* y gorphenol, yn hollol ddigymorth yn ngwyneb ymosodiadau *rifled cannon* Gwyddor a Beirniadaeth ddiweddar. A chan nad beth yw y gwirioneddau sydd yn y Dduwinyddiaeth Newydd fel ei gelwir, yr ydym ni fel Undodiaid ac eglwyswyr rhydd yn agored i dderbyn y goleuni o bob cyfeiriad. Yr ydym wedi bod, ac i barhau mi a obeithiaf fel St. Paul yn ddyledwyr, nid yn unig i'r Groegiaid, ond i'r barbariad hefyd.

Ond er fy mod mewn cydymdeimlad llwyraf a phob mudiad sydd a'i amcan i ddwyn ein duwinyddiaeth o fewn terfynau rheswm a synwyr cyffredin, rhaid i mi addef nas gwn am un dosbarth o bobl ydynt wedi gwneud cyn lleied, a chyfrif eu manteision, er dyrchafu dynoliaeth a'r duwinyddion. Ac y mae y miloedd hen gyfrolau duwinyddol sydd yn orchuddiedig gan lwch yn ein llyfrgelloedd, yn tystio yn uchel fod y *Doctors of Divinity* wedi siarad mwy o *nonsense*, a gwastraffu mwy o amser nag un dosparth ag y gwn am dano.

Dyledus arnom ynte yw cofio mai nid duwinyddiaeth sydd yn mynd i achub y byd. Ni chredaf mewn iachawdwriaeth trwy ddal syniadau duwinyddol cywir. Yr wyf mewn mwy o bryder am yr Undodiaeth Newydd nag am y Dduwinyddiaeth Newydd. Y mae yr Hen Undodiaeth yn ogystal a'r Hen Drindodiaeth wedi marw, heb obaith am adgyfodiad i'r un o honynt. A gogoniant yr Hen Undodiaeth oedd, ei bod yn gosod y pwys mawr ar fywyd, ac er ei bod yn athrawiaethol, ac weithiau yn haerdybiol, eto baich ei chenadwri a osodai allan yn ngeiriau yr Arglwydd Iesu Grist. "Mi a ddaethum fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach." Ac y mae y ffaith fod yr holl eglwysi erbyn hyn yn gosod y pwys mwyaf ar yr unrhyw genadwri, yn brawf o'r fudd-ugoliaeth ag y mae yr Hen Undodiaid wedi enill ar faes y brwydrau duwinyddol.

Ond mor bell ag y mae fy mhrofiad yn mynd nid yw y "dyn ar y stryd" yn cefnu ar yr eglwys neu y capel am ei fod yn cael ei boeni gan anhawsderau duwinyddol, ond y mae ei drafferth yn codi y rhan amlaf oddiar anhawsderau mwy ymarferol. Y mae y brawd hwn yn cyhuddo aelodau eglwysig eu bod yn anffyddlawn i'w proffes. Ni ddygant egwyddorion eu crefydd i lywodraethu yn mherthynasau pobl a'u gilydd fel aelodau o gymdeithas. A chytunaf a hwynt mai y peth pwysig yn y dyfodol fydd, nid "Beth debygwch chwi am Grist," ond beth yn ol pob tebyg y mae Crist yn feddwl am danoch chwi. Gwirionedd mawr y Dduwinyddiaeth Newydd mi a gredaf yw, "*Solidarity* yr Hil Ddynol." Ond os yw yn myned i gyplysu y gwirionedd hwn a'r gwirioneddau ereill sydd ynddi, a gwadiad ymarferol o Ryddid Ewyllys; yna credaf ei bod yn parlysu ei hun fel dylanwad i hyrwyddo blaenfynediad yn nghyfeiriad diwygiad cymdeithasol a chrefyddol. Yr ydym yn byw mewn oes ymarferol. Rhaid i bob Gwyddor (*Science*) gael ei chymwyso at ryw waith i lesoli dynoliaeth, os yw am enill ffafr yr oes.

Felly mi a derfynaf trwy ofyn ychydig o gwestiynau i bleidwyr y Dduwinyddiaeth Newydd. A ydyw y Dduwinyddiaeth Newydd yn myn'd i ddwyn yn nes y dydd pan y bydd cleddyfau Cyfalaf a Llafur wedi eu curo yn sychau, a'r gwaewffyn yn bladuriau? A ydyw yn myned i ddyddori ei hun parthed lleihau marwolaethau diangenrhaid babanod Deheudir Cymru? A thra y byddo yr Hen Dduwinyddiaeth yn mwynhau ei dychmygion perlewygol am yr "afon bur o ddwfr y bywyd disglaer fel grisial, yn dyfod allan o orseddfainc Duw a'r Oen," beth mae y Dduwinyddiaeth Newydd yn mynd i wneud i atal yr afon angeuol, yr

hon sydd cyn ddued ag Uffern ei hun, sydd yn llifo o ddarllawdai a *distilleries* Prydain? A ydyw y Dduwinyddiaeth Newydd yn myned i daflu ei hun i'r frwydr o blaid y bobl i sylweddoli delfryd y proffwyd pan y bydd pob gweithiwr trwy Gymru yn eistedd tan "ei winwydden a'i ffigysbren ei hun, a neb i'w ddychrynu," pan y bydd mynyddoedd Eryri a Chader Idris a Phlymlumon, a mynyddoedd moelion Morganwg yn edrych i lawr ar genedl bur, ddedwydd a sanctaidd.

Y Parch. W. J. Phillips

a ddywedai mai y peth pwysig i ni fel Undodiaid wrth ystyried y cwestiwn hwn ydyw, peidio edrych arno oddiar safbwynt sectol, ond fel rhai sydd yn chwilio am y gwirionedd ac yn llawenhau yn ei ledaeniad. Mae y dyn sectol yn hollol argyhoeddedig y bydd i'w enwad neillduol ei hunan, yn hwyr neu hwyrach, lyngcu i fyny y gweddill. Ymddengys i mi fod yr yspryd hwn yn blentynaidd ac yn *wrong*, am ei fod yn tueddu i wanhau cydweithrediad a chariad brawdol, y rhai ydynt elfenau angenrheidiol Cristionogaeth.

Y mae symudiad y Dduwinyddiaeth Newydd yn bwysig; nid yn gymaint ar gyfrif yr hyn mae'n gyfleu, neu'n fethu gyfleu, ydyw gwirionedd crefyddol; ond am yr agwedd y mae wedi gymeryd i fyny mewn perthynas i'r gwirionedd; ac oherwydd ei fod yn genad oes newydd, pryd y bydd pawb dynion yn llefaru yn ddiofn y fath agweddau o'r gwirionedd ag a gredir ganddynt sydd yn iawn.

Yn y gorphenol y mae dynion wedi ofni llefaru allan argyhoeddiadau gonest eu cydwybodau eu hunain, a phan y gwnant hyny mewn pryder ac ofn weithiau, erlidir a diaelodir hwy o'r eglwys y perthynent iddi. Y mae y ffaith fod yr hyn ystyrid oedd yn heresiau ddoe yn wirioneddau derbyniol heddyw, yn profi ein bod wedi teithio yn mhell ar ffordd cynydd crefyddol. Ychydig dros ddeugain mlynedd yn ol, cyhuddid Esgob Colenso ei fod yn "gwneud gwaith y diafol," a chafodd ei esgymuno o'i esgobaeth. Ac eto heddyw y mae Eglwyswyr blaenllaw yn derbyn ei olygiadau ef, yn eu cyhoeddi mewn llyfrau ac yn eu pregethu o'u pwlpudau, a braidd y mae gair o brotest yn cael ei godi, llai fyth mae y ddedfryd o'u esgymuno yn cymeryd lle. Ond oddiar amser Colenso hyd yn ddiweddar, y mae dynion yn y gwahanol enwadau wedi ofni llefaru'r gwirionedd. Gwir na allent gredu yn nghredoau a chyffes ffydd yr eglwysi; yr oeddent yn hollol argyhoeddedig yn eu meddyliau eu hunain fod llawer o'r hyn osodir allan yn y credoau fel gwirionedd anffaeledig, yn gabledd ar gymeriad Duw, ac yn enllib ar ei enw glân.

Ac eto yr oedd eu tafodau wedi eu cylymu, ac ofn arnynt lefaru'r gwirionedd. Ond er ys tro y mae yn amlwg fod yna ddeffroad ar droed, y mae y mwyaf hyf yn mhlith y duwinyddion newydd yn dechreu llefaru yr hyn a gredant. Oddiamgylch i ni yn mhob man y mae yna arwyddion o'r yspryd rhyddfrydig hwn yn syniadau crefyddol dynion. Y mae yna amrywiol ddylanwadau wedi bod ar waith er dwyn oddiamgylch y cyfnewidiadau mawrion hyn, a gallwn ni fel enwad bychan hawlio fod genym ran helaeth yn y gwaith. Ond i ddweyd mai ni sydd gyfrifol am yr oll, sydd fwy nas gall neb o honom gyfiawnhau ac amddiffyn.

Na fydded i ni syrthio i'r cyfeiliornad o hawlio y dynion hyn fel Undodiaid. Galwn hwynt yn frodyr, cydchwilwyr am y gwirionedd; ac awn allan gyda hwynt mewn ymchwil am wirionedd llawnach, a dywedwn wrthynt, "Ni a gyd-deithiwn, o herwydd clywsom fod Duw gyda chwi."

Dywedodd y

Parch. M. Evans,

Highland Place, ei fod mor llawn fel nas gwyddai beth i'w ddweyd yn gyntaf. Credai fod Mr. S. Jones a

Mr. D. Evans wedi dangos yn eglur nad Undodiaeth oedd y Dduwinyddiaeth Newydd. Yr oedd yn eangach nag Undodiaeth a Thrindodiaeth—yspryd a bywyd ydoedd, ac nid duwinyddiaeth. Agwedd neillduol ynddi ydoedd holl bresenoldeb perffaith Duw — perffaith Unoliaeth Duw â dynoliaeth, a pherffaith frawdoliaeth dyn. Codai hyn yr wrthddadl o Ollduwiaeth. Ond a oedd genym unrhyw beth gwerth ei gadw nad oedd o Dduw, ac yn uniongyrchol oddiwrth Dduw? Beth oedd genym gwerth ei gyfrif nad oedd o Dduw? Arweiniai hyn rai i ystyried fod Duw yn awdwr pechod. Wel, yr oedd yn ffaith fod y profiad o'r hyn a elwid yn bechod yn rhan o'n bywyd. Os oeddym i gredu yn drwyadl mewn datblygiad ymwybyddiaeth, yr oedd yn rhaid rywbryd yn hanes dynoliaeth i'r teimlad a'r syniad o bechod gael eu deffroi ynom. Daeth yna agoriad llygad newydd a thywyniad goleuni newydd a barai i'r bywyd anifeilaidd i ymddangos yn isel, gwael a llygredig. Hyd nes i'r deffroad a'r tywyniad goleuni newydd yma gymeryd lle nid oedd y bywyd yn bechadurus. Y lle y deuai pechod i fewn yn awr i'n bywyd ydoedd lle y dewisem yr hen fywyd isel a gwael wedi ini weled y bywyd uwch a gwell. Mewn perthynas i ymholiad Mr. Rees, Penybont, a oedd y Dduwinyddiaeth Newydd yn debyg o fod yn gynhorthwy i wella cymdeithas, dywedai Mr. Evans ei fod yn credu y byddai yn gymhorth mawr yn y cyfeiriad yma. Tueddai i feithrin yspryd brawdgarwch yn y rhai a'i credai. Os ydyw Bywyd, neu, Duw yn unoliaeth perffaith, ac os o ganlyniad, yr oedd yna berffaith unoliaeth rhwng Duw a dyn, ac os, gan hyny, yr oedd y ddynoliaeth yn *un*, o'r un natur, hyny yw, *o natur ddwyfol*, rhaid oedd iddi—y Dduwinyddiaeth Newydd—fod yn gynorthwy mawr i wella cymdeithas. Nis gall neb gredu a'i holl galon y gwirioneddau mawrion hyn heb gael gweddnewidiad Meddwl a Bywyd, a'i lenwi a chariad at ei frawd, ac a gweithgarwch ar ei ran.

DR. JOHN HUNTER.

Ar fy ymweliad cyntaf a phrifddinas fasnachol yr Alban, cymerais fantais o'r ffaith nad oes yn yr haf wasanaeth hwyrol yn ein capeli ni fel Undodiaid (nac yn wir mewn llawer o gapeli ac eglwysi ereill), i fyned i glywed y pregethwr a'r duwinydd enwog y mae ei enw wrth ben yr erthygl fer hon. A dichon mai nid annyddorol, feallai i rai, beth bynag, o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD fyddai desgrifiad byr o'm prif argraffiadau o'r dyn a'i addysg. Yn gyntaf, y dyn. Dyn heibio'r canol oed (triugain o leiaf, gallwn feddwl) yw Dr. John Hunter, gyda gwallt llwyd-wyn, o luniad disut, a thaldra cyffredin, ac heb farf ar ei wyneb; dyn yn llawn egni a bywyd, ac un dafla ei hun yn gyfangwbl i'w waith. Fel pregethwr mae wedi enill enwogrwydd mawr iddo'i hun; bob nos Sul y byddo ef yn pregethu yno mae Eglwys y Drindod (capel mawr ar ffurf eglwys yn Claremont Street) yn llawn os nad yn orlawn, a deallaf ei bod yn anodd yn fynych cael lle i eistedd. Ac eto, nid oes ond ychydig o'r pregethwr poblogaidd oddeutu Dr. Hunter. Ni waedda, ni â i hwyliau mawrion, ni apelia yn gyfangwbl, yn ormodol nac hyd yn nod yn

benaf at deimladau ei wrandawyr; nid oes ganddo lais cryf, clochaidd, sy'n diaspedain o un cwr o'r eglwys i'r llall, nac ychwaith lais neillduol o dreiddgar. Yn wir, llais digon cras, heb ddim byd neillduol o swynol ynddo yw yr eiddo ef. Ni nodir ef hyd yn oed gan y peth cyntaf bron a ddisgwyliem weled mewn pregethwr poblogaidd a'r peth lleiaf pwysig, feallai—ni phregetha dros y fraich, ond yn hytrach o bapyr; felly cymered gwyr y papyrau gysur, er na charwn er hyny eu hanog i gadw yn ormodol at eu papyrau. Prin y mae eisieu dweyd na wna Dr. Hunter hyn—nid darlithydd yw yn sefyll uwchben dosbarth o fyfyrwyr.

Os na ddengys gwrthddrych ein sylwadau, ynte, nodweddion cyffredin y pregethwr poblogaidd, beth gyfrifa am ei boblogrwydd? Wel, yn y lle cyntaf, mi gredaf, y dyn ei hunan, ac yn yr ail le, ei addysg. 'Rydym wedi gweled yn barod pa fath ddyn yw yn allanol, ac y mae llawer o bethau a'i nodwedda yn y cyfeiriad hwn yn ddigon atdyniadol, ond nid yw hyn yn ddigon. Rhaid treiddio i mewn i'w enaid, a'i galon cyn cael gafael ar yr hyn enilla barch, edmygedd a serch y bobl. Amlwg yw i unrhyw un a'i gwel yn y pwlpud, ac a'i clyw yn traethu ei neges i'r byd, ei fod yn hollol ddidwyll, diragrith a gonest yn ei ddaliadau, ac y mae hyn ynddo'i hun, pan ystyriwn gymaint o ffug a rhagrith, o dwyll a hoced sydd yn y byd heddyw ar ol pedair canrif ar bymtheg o'r hyn a elwir yn Gristionogaeth, yn ddigon i enill cymeradwyaeth pawb sy'n caru gwirionedd a difluantrwydd. Ond nid dyna'r oll rodwedda Dr. Hunter. O nage! Nid yw'r rhinweddau hyn ynddynt eu hunain, er cystal ydynt, yn ddigon. Mae ef, yn mhellach, yn llawn tân a brwdfrydedd dros y genadwri sydd ganddo i draethu i'r byd; hawdd gweled hyn oddiwrth ei holl ddull a'i osgedd yn y pwlpud. Câr pobl weled unrhyw un pwy bynag, ag sydd ganddo neges i'w draethu i'r byd, yn dangos ei fod yn credu ynddo ei hun, a'i fod yn foddlon aberthu rhywfaint drosto; os na wnaiff hyn prin y gall ddisgwyl i eraill gredu yn ei genadwri. Dyma, gyda llaw, lle 'rydym ni fel Undodiaid yn colli yn fynych. Ni ddangoswn yn ddigon amlwg i'r byd ein bod mewn gwirionedd yn credu yn yr hyn broffeswn gredu ynddo, a'n bod yn foddlon aberthu rhyw gymaint drosto; yn wir, yr argraff ga ymddygiad llawer o honom ar ereill, mi ofnaf, yw nad yw wahaniaeth genym pa un a lwydda ein hefengyl a'i peidio, 'rydym mor glaiar a difater fel mae pigad cleren yn ddigon i gadw llawer o honom o'r gwasanaeth ar y Sul. Nid dyn o'r priddyn yma yw John Hunter; na, nid Laodicead mo hono, eithr yn hytrach disgybl i Paul yw yn y peth yma, a dyna gyfrif i raddau helaeth, mi gredaf, am y lle cynhes mae wedi enill iddo'i hun yn nghalonau'r bobl. Erys un peth eto i'w grybwyll a'n cynorthwya i ddeall paham y mae Dr. Hunter wedi enill, a phaham y ceidw ei boblogrwydd, h.y., ei addysg, ei genadwri, ei efengyl, os y mynwch; a hynyma gaiff fod o dan sylw yn y gweddill o'r llinellau hyn.

Wrth gwrs, ni fyddai ond rhyfyg o'r mwyaf ynwyf i geisio rhoddi darlun cyflawn neu debyg i gyflawn o addysgiadau y Doethor dysgedig. Nid wyf wedi darllen dim o'i waith hyd yma, a dim ond dwy waith y clywais ef yn pregethu erioed. Eto credaf fy mod wedi cael yn ac oddiwrth y ddwy bregeth yma amcaniaeth weddol o'r hyn yw ei genadwri i'r byd. Yr hwyrnos gyntaf y clywais ef cymerodd fel ei destyn yr adnod gyntaf yn y ddeuddegfed bennod o lyfr Genesis. Wedi dweyd nad oedd yn debyg yn meddwl a bwriad Abram ddim yn mhellach na chwilio am well gwlad iddo ef ei hun a'i dylwyth nag oedd ganddynt yn nhir y Chaldeaid, aeth yn mlaen i ddangos y dylai'r weithred yma o'i eiddo fod yn arwyddnod ini yn y dyddiau hyn o fynediad uwch a gogoneddusach, yn symbyliad ini adael llwybrau pechod a chamwedd, a chyrchu at y

nod am gamp uchel galwedigaeth meibion Duw yn Nghrist Iesu. Fodd bynag, awgryma edfynt Abram o Chaldea ragor na hyn iddo. Saif iddo fel arwyddlun o'r cewri ydynt trwy yr oesau wedi bod yn ffyddlon i'w cydwybod ac i'w Duw ar draul eu hawddfyd, eu lles, eu hiechyd, ac hyd yn oed eu bywyd eu hunain. Arweiniai hyn ef i siarad am "Bererinion y Delfrydol"—ei destyn, yn ol y newyddiaduron lleol, am yr hwyr yma. Trwy yr oesau mae y gofyniad wedi cynyg ei hun i blant dynion yn mhob man, a allant yn gydweddol a'u dyledswydd i'w cydwybod ac i'w Duw aros yn y sefyllfa, y gymdeithas, y cyfundeb neu'r eglwys y perthynent iddo neu y maent ynddo? Ac ar yr atebion roi'r i'r gofyniad hwn y dibyna cynydd moesol, crefyddol a chymdeithasol dynolryw. Mae'r mwyafrif mawr bob amser wedi bod yn rhy brin o wroldeb a ffydd i gymeryd y cam pwysig a'u gwahana efallai, oddiwrth eu perthynasau, eu cyfeillion, eu cydgrefyddwyr neu eu plaid boliticaidd, ac a'n gwna yn anathema i lawer. Ond y mae yna wedi bod yn mhob oes a gwlad rai ydynt yn ddigon gwrol a ffyddlog i dori hen gysylltiadau, a myned allan yn nerth eu Duw, fel Abram, i chwilio am wlad yr addewid; rai ydynt wedi bod yn ddigon dewr i feiddio anghymeradwyaeth y byd a dewis yn hytrach cael eu galw yn hereticiaid neu atheistiaid, na bod yn anffyddlon i'r weledigaeth nefol fel y dadguddir hi yn eu cydwybodau. Y rhai yma ydynt halen y ddaear a goleuni y byd—dinas ar fryn nas gellir ei chuddio—ac iddynt hwy mae gwir gynydd y byd wedi ac yn bod yn ddyledus. Hwy ydynt athrawon, prophwydi a gwir ddiwygwyr y byd wedi bod trwy'r oesau, ac yn parhau felly hyd yn awr. Nid oes gyda ni ond meddwl am sylfaenwyr cyfundrefnau mawr crefyddol y byd er gweled fod hyn yn wir, a gellid enwi llawer eraill, megys Socrates, Savonarola, Galileo, Serfed, Penry, Wilberforce, Harrison, &c.

Yn mhob cymdeithas neu setydliad, eglwys neu gyfundeb, y mae yna ddau lwybr diwygiad—oddifewn ac oddiallan. O fewn eu cylch priodol mae pob un o'r ddau yn iawn, yn deilwng i'w cymeryd. Ond mor bell ag y mae'r llwybr tufewnol, beth bynag, yn myned, y mae yna derfynau caeth dros y rhai na ddylid ar un cyfrif myned. Os bydd dyn, fel engraifft, am wella sefyllfa yr eglwys y perthyn iddi, mae ganddo berffaith hawl i geisio gwneud hyny oddifewn i'w muriau, cyhyd ag y gall aros oddifewn a bod yn ffyddlon i'w argyhoeddiadau dyfnaf—ond dim eiliad yn rhagor. Ei ddyledswydd wed'yn yw dyfod allan—a hyny ar unwaith—oblegid rhaid iddo, costied a gostio, fod yn ffyddlon i gydwybod ac i Dduw. Ac er fod y ddau lwybr yn iawn, o fewn terfynau, profa hanesyddiaeth mai yr olaf, sef y llwybr allanol, yw'r unig un sydd wedi bod yn wir effeithiol mewn diwygio'r byd. A chan ddechreu gyda hanes Cristionogaeth profodd Dr. Hunter trwy luaws o esiamplau pwrpasol fod y gosodiad yma yn wir. Onibae i Paul dori allan o'r Eglwys Iuddewig a thynu'r disgyblion eraill ganddo, y tebygolrwydd yw na fyddai Cristionogaeth erioed wedi gadael Jerusalem. Pe na bae Luther wedi cymeryd calon a hoelio ei brotest ar ddrws eglwys Wittenberg, ac felly ar yr un pryd gau ei hunan allan am byth o Eglwys Rufain, nid yw'n debyg y byddem heddyw yn mwynhau y rhyddid ddaeth Protestaniaeth ini. Aberthau y Piwritaniaid, y Tadau Pererindodol, a'r Ddwy Fil wrthodasant blygu glin i Baal yn amser Siarl yr Ail, a'r ffaith iddynt dori allan o'r Eglwys Sefydledig, wnaeth ryddid crefyddol yn bosibl yn y wlad hon. Gwaith Theophilus Lindsey yn rhoddi i fyny ei fywoliaeth eglwysig yn Swydd Gaerefrog fu achlysur sylfaeniad yr enwad Undodaidd fel enwad (ychwanegiad o'm heiddo i yw'r ffaith hon). Cerir yr un egwyddor allan heddyw eto, a dyweder hyny i'w hanrhydedd, gan lawer i bregethwr mwy neu lai enwog yn ein

gwlad a gwledydd ereill ; a maddeued y darllenydd imi am gofnodi yn y cysylltiad hwn (fel ychwanegiad arall at bregeth Dr. Hunter) enwau Stopford Brooke, Robert Spears, Minot Savage, Robert Collyer, John Hunter ei hun, ac R. J. Campbell.

Da, dedwydd, yw ini nas gwyddom ble 'rydym yn myned, ond awn allan mewn gobaith, rhodiwn mewn ffydd, gan roi ein hyder yn y Gallu roddodd ini y gorchymyn. Os nad yma, yna draw, bydd i bob dyn da (a dynes hefyd) gwrdd a'i ddelfryd. Dyna grynodeb byr o bregeth Dr. Hunter nos Sul, Medi 1af. Wythnos yn ddiweddarach cymerodd fel ei destyn y 5ed a'r 6ed adnod o'r chweched Salm ar hugain wedi'r cant. Nid oes Beibl Cymraeg o'm blaen, ac ni cheisiaf gyfeithu, felly bydded y darllenydd cystal ag edrych i fyny y geiriau ei hun. Ni cheisiaf ond talfyriad byr iawn o'r bregeth yma.

Nid er pleser yn unig, nac yn benaf, mae'r byd yma wedi ei fwriadu. Pe felly, byddai yn fethiant, am fod llawer o ofid a thristwch a galar ynddo. Gwnawd ef yn hytrach i fod yn ysgol a disgyblaeth cymeriad ini. Nid yw pleser i'w wrthod yn llwyr, er hyny, ond os am ei gael peidiwn chwilio am dano na rhedeg ar ei ol (collwn ef yn y fel yma), eithr yn hytrach gwnawn ddaioni, a daw ini o hono ei hun, yn enwedig y ffurf uwchaf hono o bleser a alwn yn llawenydd. Ond eto, rhaid caru daioni, nid am ei fod yn bleserus, ond am ei fod yn dda. Amcan penaf bywyd yw caffaeliad o ddaioni a'r wobrwy am wneud yr hyn sydd dda yw y gallu i wneud rhagor. Hyd yn oed yn y byd hwn yn y pen draw daw cyfiawnder a barn allan yn fuddugoliaethus, ond y mae byd arall yn angenrheidiol, er hyny, i berffeithio a chwblhau hwn. Mae gwaith goreu'r byd erioed wedi ei hau mewn dagrau, gweithwyr mawr a chymwynaswyr dynoliaeth, fel rheol, wedi byw cyn eu hamser, ac wedi eu herlid, ac yn aml eu croeshoelio gan eu cyd-ddynion. I fod yn ddisgyblion i Grist rhaid ini fod yn feddianol ar ei yspryd ; i garu Duw rhaid ini garu trugaredd, cariad, gwirionedd a chyfiawnder. Nid oes yna y fath beth a methiant neu aflwyddiant hollol a therfynol. Gofalwn yn unig ar fod ein gwaith yn gywir, yn ddidwyll, yn ffyddlawn, yn aruchel a dyrchafedig, a gadawn y canlyniadau yn nwylaw Duw.

Oddiwrth yr amlinelliad byr hyn fe wel y darllenydd, gobeithiaf, beth yw rhediad addysg Dr. John Hunter. Bywyd ac nid credo yw'r peth pwysig iddo ef, buchedd ac nid defod, ymarweddiad ac nid cyffes ffydd. Awgrymiadol iawn yn y cysylltiad hwn yw enw'r llyfr emynau ddefnyddir yn yr eglwys—"Emynau Ffydd a Bywyd," casgliad o waith Dr. Hunter ei hun. Dyddorol, efallai, i rai fydd clywed mai y Parch. W. H. Drummond, Rhydychen, sydd i bregethu yn Eglwys y Drindod dydd Sul nesaf.

CYMRO ODDICARTREF.

YR *HIBBERT JOURNAL.*

Yr wyf wedi ymgymeryd a'r gorchwyl o adolygu yr *Hibbert Journal* fwy nag unwaith, a gallaf ddweyd heb unrhyw betrusder mai gorchwyl anhawdd yw am y gwahaniaetha oddiwrth lyfr cyffredin yn hyn : ei fod yn cael ei wneud i fynu o nifer o erthyglau ydynt yn ymdrin â gwahanol bynciau, a'r oll o honynt yn orlawn o'r mater goreu a dweddaraf. Carwn yn fawr pe gallwn ddweyd ychydig am erthygl alluog y Proff.

Henry Jones ar y "Mewnfodaeth Dwyfol." Gwna'r gwr athrylithgar hwn ddwyn ei athroniaeth mor agos at ein bywydau ymarferol, ac felly y mae bob amser yn addysgiadol heb fyth fod yn sych. Carwn gyfeirio hefyd at erthygl Proff. Royce o Harvard ar "Anfarwoldeb," ond cyfyngaf fy hun y tro hwn i un arall o waith awdwr sydd wedi gwneud ei ymddangosiad yn y rhifyn hwn am y tro cyntaf. Yr ydym yn cyfeirio at erthygl y Parch. J. M. Lloyd Thomas, Cymro ieuanc a gweinidog gyda'r Undodiaid yn Nottingham, ar "Y Ddelfryd Rydd Gatholig." Daw ystyr y teitl yn fwy eglur wrth fyned yn y blaen. Gallaf ddweyd wrth gychwyn fod Mr. Thomas o ran ei ysbryd a thuedd ei feddwl yn perthyn i'r un blaid a Mr. Campbell, Llundain a Mr. Rhondda Williams, Bradford, ac os nad wyf yn camsynied ystyrir ef yn gyfaill mynwesol i'r naill a'r llall o honynt. Adnabyddir eu cenadwri yn benaf wrth yr enw *New Theology*, yr hwn sydd yn anghywir ac yn anffortunus, canys nid oes yn ei dduwinyddiaeth ddim sydd newydd oddigerth mewn cymmariaeth a'r iawnffyddiaeth sydd wedi bod mewn meddiant o'r maes am gyhyd o amser. Yn ei hysbryd a'i hanfod â y "Dduwinyddiaeth Newydd" yn ol i ddechreuad Cristionogaeth, ac mae'n ddigon posibl y dylaswn ddweyd yn ol o leiaf i'r prophwydi Amos, Hosea ac eraill o'r un dosbarth. Gwelodd Iesu yn gynar yn ei fywyd fod rhywbeth allan o le ar y grefydd Iuddewig. Yr oedd wedi myned yn rhy ffurfiol ac allanol, yr oedd y lythyren wedi enill y blaen ar yr ysbryd. Ceisiodd Iesu adferyd pethau i'w gwir sefyllfa trwy ddangos i ddynion fod y bywyd yn fwy na'r corph, a'r enaid yn fwy na'r dillad. Gwyr pawb beth fu y canlyniad. Ychydig amser ar ol ei farwolaeth treiglodd pethau yn ol bron i'r un man ag oeddynt cyn ei ymddangosiad. Gwelwyd unwaith eto ddefodau a ffurfiau yn dyfod i fewn yn nghyd ag eglwys i ofalu am danynt, a hono yn seiliedig ar gredoau ac erthyglau ffydd. Cof genyf unwaith ofyn i Eglwyswr dysgedig beth oedd y rheswm am hyn. A chredaf nad oedd yn mhell o le pan y dywedai mewn atebiad fod delfrydau yr Iesu yn rhy uchel i'r lliaws eu dilyn. Megys ag y mae yn ofynol i rwymo y baban a chadachau, felly y mae yn rhaid i'r meddwl dynol wrth allanolion crefydd. Gwelwyd bron yn mhob oes engreifftiau o ddynion fel Iesu fedrent eu hanwybyddu, ond eithriadau oedd rhain ac nid rheol. Felly aeth yr eglwys yn ei blaen yn llwyddianus am ganrifoedd heb fawr o berygl i'w goruwchafiaeth. 'Mhen amser daeth Luther i aflonyddu ychydig ar ei heddwch, ac fel canlyniad cafwyd y diwygiad mawr esgorodd ar Brotestaniaeth. Ond nid oedd mor chwildroadol ag y meddyliwn ambell waith ei fod. Cadwyd llawer oedd nodweddiadol o'r hen gyfundrefn Rufeinig. Pa bryd ynte y ceir gwir ddiwygiad a'n dug yn ol at deyrnasiad yr ysbryd fel y'i sefydlwyd gan yr Iesu? Barn Mr. Thomas ac eraill yw, ei fod yn myned yn y blaen yn awr, a'i fod yn llawer mwy pwysig na'r un gychwynwyd gan Luther. Rhoddodd beirniadaeth Feiblaidd ergyd marwol i anffaeledigrwydd y Beibl a thrwy hyny syrthiodd un o bileri yr hen gyfundrefn yn bendramwnwgl i'r llawr. Y cam hwn a'i ganlyniadau yw swm a sylwedd y Dduwinyddiaeth Newydd. Ar y llaw arall daeth gwyddoniaeth a chymdeithasiaeth i osod dyn ar dir newydd a hawliant iddo ei iawnderau fel rhan anwahanadwy o'r greadigaeth. Fel ffrwyth yr holl symudiadau hyn gwelir eglwys newydd rydd gatholig yn araf godi o adfaelion yr hen un, fel y dywedir y gwna'r Phoenix godi o ludw marwol ei fam. Ni chyfyngir yr eglwys hon i unrhyw enwad neillduol, ond cynwysa elfenau o bob cymdeithas a chorph crefyddol fel eu gilydd. Y mhwymyn cysylltiedig yw cymundeb ysbryd ac nid credoau ac erthyglau ffydd. Ymdrin a'r adfywiad pwysig hwn wna Mr. Thomas yn ei erthygl

ddyddorol y cawsom gymaint o fwynhad wrth ei ddarllen. Hawddach yw amgyffred yr eglwys newydd hon na'i desgrifio. Nis gwyr am derfynau gwlad nac amser. Gall pob dyn ar wyneb y ddaear fod yn aelod o honi, ond iddo ddyfod i fewn trwy ddrws yr ysbryd. Mi gredaf fi mai meddwl am rywbeth cyffelyb oedd yr Iesu pan y dywedodd wrth y wraig o Samaria, "Dyfod y mae yr awr ac yn awr y mae hi pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd ac mewn gwirionedd." Cred yr awdwr mai buddiol yw cadw yr enw "Catholig" am ei fod yn fwy na'r un arall yn awgrymu helaethrwydd a chyfanrwydd y grefydd newydd. Felly mewn un ystyr bydd yn tebygu i'r Eglwys Rufeinig, ond gwahaniaetha yn fawr hefyd, oherwydd bydd yr unigolyn yn derbyn sylw priodol ac at ei ryddid i ffurfio ei farn a'i syniadau ei hun. Yr unig gyfraith gydnabyddir o'i mewn fydd "perffaith gyfraith rhyddid."

J.P.D.

PRIODASAU.

HYDREF 8, yn nghapel yr Undodiaid, Abertawe, gan y Parchn. E. E. Jenkins, J. P. Kane a Simon Jones, B.A., y Parch. David Evans, gweinidog Cribyn a Chapelygroes â Miss Jane Lewis, Salford House, Dowlais.

Difyr fo uniad Dafydd—a'i lawen
Miss Lewis ysblenydd ;
Hedd hudol a nef ddedwydd
Fo i'r ddau yn foreu ddydd.

Geneth fel gwyneb gwanwyn—hael,
Yw Miss Lewis ddillyn ; [hoew,
Ddiail gâr ! o feddwl gwyn
Yw cawr hoewbert y Cribyn.

I'r hen lanc daeth tranc, daeth tro—
I'w aileni eto, [haelionus
Am hir ddydd bu Dafydd do
Heb ei lonwawr yn blino.

Yn yr anial bu'n rhynu—heb wanwyn
Benyw i'w gynhesu ;
A rhyw "Baul" am dymor bu
Heb ei gerub i garu.

Ond wele'r bore yn bur—yn tori
Dros diroedd ei natur ;
Gydag hwyl gadawa'i gur
Yn negesydd am gysur.

Hwnw ga yn wanwyn gwyn—ofynwes
Ei feinwen benfelyn ;
Ac i oer wybyr y Cribyn
Daw yr haul o'r modrwyau hyn.

Miss Lewis serchus, a'i swyn—enill-
Yn hollol wr hyfwyn ; [odd
Aeth ag ef mewn iaith ddigwyn
I fro odlau'r hyfrydlwyn.

Miss Lewis, rymus, lawen—addenodd
Ei anian i'r heulwen—
Un o flodau fel Eden,
A rhaffau aur ar ei phen.

Rhown hwre i dre 'n ddidrais—hwre
I'r ddau mewn hyfrydlais, [ddewr
Unol hwyl fel Cribyn-lais
A ddaw eilwaith o Ddowlais.

Boed heddwch bywyd iddynt—a bwa
Bywyd fo'n nawdd drostynt ;
A daioni am danynt
Yn wawl aur—yn hwyl i'w hynt.

ALVA.

HYDREF 26, yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, y gweinidog yn gwasanaethu, Mr. James Mendez â Miss Mary (May) Watkins, y ddau o Aberdar.

May God Almighty's blessing
Go with you every day,
And keep you from transgressing
His will in every way ;
And Love, the great dispenser
Of Peace within the home
Be yours on earth, and after
A Home in Kingdom come.

MARWOFION.

HYDREF 19, yn 4 wythnos oed, Evan Emrys, baban Tom a Sarah Evans, Tynewydd, ger Bwlchyfadfa. Claddwyd y Llun canlynol yn Capelyfadfa a gwasanaethwyd gan E. O. Jenkins.

HYDREF 26, yn 79 oed, Mary Howells, Rhoslwyn, Cribyn, gweddw y diweddar Oliver Howells, gynt o Gaerfoel. Gwanaidd oedd ei hiechyd er's blynyddoedd, ond diangodd yn dra sydyn ar ol pythefnos o gystudd. Gadawa dri o blant ac amryw wyrion i alaru ar ei hol. Claddwyd y Llun canlynol yn eglwys Ystrad. Pregethwyd yn y ty yn ol ei dymuniad gan E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd yn yr eglwys gan Mr. Owen, y rheithor.

MANION AC HANESION.

ABERDAR.—Cawsom wyl dê, dydd Llun a chyngherdd nos Fercher, y 7fed a'r 9fed yn yr Hen Dŷ Cwrdd—y ddau yn llwyddianus iawn. Cawsom help gwerthfawr gan amryw allanolion, yn enwedig brodyr o gapel Ebenezer, am yr oll yr ydym yn ddiolchgar iawn. Nos Lun y 14eg, cychwynodd y Gymdeithas Ymdrechol Gristnogol ar ei gwaith; y llywydd eleni yw Mr. Richard Jones, a'r ysgrifenydd Mr. William Henry Davies, ac y mae pob argoel y cawn dymor hapus, o leiaf y mae'r program yn ddyddorol. Buwyd yn ffodus i gael dechreu da, pan y darllenodd y Parch. J. Hathren Davies bapyr byw a dyddorol ar John Penry, y gwr ieuanc a fu farw yn ferthyr i gydwybod yn 1593 yn 34 oed, gan adael gweddw a phedair o ferched bach yn amddifad iawn. Gobeithio y caniata Mr. Davies i'r erthygl ymddangos yn YR YMOFYNYDD.——Cafwyd cyfarfodydd diolch am y cynhauaf llwyddianus iawn yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Sul a Llun, yr 20fed a'r 21ain o'r mis diweddaf, y Parch. W. Alva Richards yn gwasanaethu. Cymerwyd y rhanau defosiynol nos Lun gan y Parch. M. Evans, Highland Place.

LLYFR DU CAERFYRDDIN. — Deallwn fod argraffiad y Dr. Gwenogfryn Evans o Lyfr Du Caerfyrddin i wneuthur ei ymddangosiad ar y 25ain o'r mis diweddaf. Y mae genym addewid am adolygiad o'r hen lyfr gwerthfawr erbyn ein rhifyn nesaf.

LLWYDDIANT.—Bydd yn dda gan ei gyfeillion ddeall fod Mr. John Davies, Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, myfyriwr yn yr H.M.C., Manchester, wedi enill y Gaskell Scholarship (£70) gydag anrhydedd.

PANTDEFAID A'R GRAIG, LLANDYSSUL. — Cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf yn y ddau le uchod nos Iau, Hyd. 24ain, y Sul a'r nos Lun dilynol. Pregethwyd yn effeithiol i gynulliadau mawrion gan y Parchn. W. Alva Richards ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

LLWYNRHYDOWEN A CHAPELYFADFA.—Cynhaliwyd y cyfarfodydd diolchgarwch yn y lleoedd uchod nos Iau a nos Wener, Hydref 17 ac 18. Yr oedd y cynulliadau yn lluosog a'r casgliadau yn well nag arferol. Pregethwyd gan y Parchn. W. Alva Richards, Gellionen ac E. O. Jenkins.

Y PARCH. JOHN EVANS, B.A.—Da genym glywed am lwyddiant cynhar y brawd gweithgar hwn. Derbyniodd alwad i eglwys bwysig Rochdale, ac yn ol y *Christian Life* bu yno gyfarfodydd gwresog ar achlysur ei ymsefydliad. Bu Mr.

Evans yn llafurio yn llwyddianus am ddwy flynedd yn Bolton a dwy a haner yn Colne, a da genym weled y dystiolaeth uchel ddygid iddo ef a'i briod gan ei hen eglwys yn Colne. Siaradwyd yn y cyfarfod gan nifer o weinidogion a lleygwyr, y rhai ddygent dystiolaeth uchel i weithgarwch ac ymroddiad Mr. Evans fel gweinidog. Mae YR YMOFYNYDD o galon yn ei longyfarch ef a'i briod, ac yn dymuno iddynt lwyddiant mawr yn y cylch pwysig y galwyd hwynt iddo.

PENYBONT.—Cynaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf, Sul a nos Lun y 6ed a'r 7fed o fis Hydref. Prydnawn Sul, tan arweiniad Mr. Tom James, y *Council School*, perfformiodd côr yr Ysgol Sul lyfryn yn dwyn y teitl, "*Harvest Service of Praise and Prayer*," yn rhagorol iawn. Nos Sul, yr oedd y gynulleidfa yn fwy na llanw y capel. Yr oedd yr adeilad yn llawn gryn ugain mynud cyn amser dechreu y gwasanaeth. Y gweinidog yn gwasanaethu trwy y dydd Sul. Nos Lun eto, cafwyd cynulliad da, y capel yn llawn ar y llawr, a thua deg ar hugain ar y llofft. Y pregethwr nos Lun oedd y Parch. W. J. Phillips, Nottage, ac afraid yw ychwanegu fod y pregethu yn hwylus a da. Yr oedd chwiorydd y gynulleidfa wedi myn'd i drafferth a llafur i addurno yr hen gysegrfan ar gyfer yr achlysur, ac y mae y ffaith fod cymaint o flodau, ffrwythau a chynyrch meusydd y cynhauaf wedi cael eu danfon o gynifer o fanau, o Langrallo, Heol-y-cawl, Ewenny Priory, Ty Maen, Tondu, a Choetre Hen, yn brawf fod y bobol yn gyffredin mewn cydymdeimlad a'r ymdrech sydd yn cael ei gwneud i godi yr hen gapel i'r safle ddylanwadol fu ynddo gynt.

Y WIG.—Yr oedd yr hen gapel yn ymddangos yn dlws a phrydferth, wedi ei addurno â blodau, ffrwythau, ac ŷd, i ddathlu gwyl diolchgarwch am y cynhauaf, yr hwn a gynhaliwyd nos Lun, y 14eg o Hydref. Dyma y gwasanaeth mwyaf pwysig yn nghapel y Wig yn ystod y flwyddyn. Ac nid oedd yn wahanol eleni. Yr oedd cyfeillion wedi dod yn nghyd o bell ac agos, fel yr oedd yr hen dy cwrdd yn orlawn. Llywyddwyd ac arweiniwyd yn y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth gan y gweinidog, y Parch. Hugh Robinson, a phregethwyd gan y Parch. D. G. Rees, Penybont. Casgliad boddhaol, cynulliad rhagorol, canu grymus, a phregethu hwylus oedd yn nodweddu y cyfarfod hwn.

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.—Drwy ryw amryfusedd gadawyd allan y *Balance Sheet* arferol o'r Rhaglen am y flwyddyn nesaf. Y peth goreu fedrwn wneud wedyn ydyw ei chyhoeddi yn yr YMOFYNYDD. (Gweler tudalen 2 o'r clawr).

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAUAF.—Cynhaliwyd yn Alltyplaca, Capelybryn, a Chapelycwm, ar nosweithiau Mawrth, Mercher a Iau, Hydref yr 8fed, 9fed, a'r 10fed. Gwasanaethwyd yn y tri lle gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a rhoddodd ei wasanaeth foddlonrwydd mawr a chyffredinol. Gwnaed casgliadau boddhaol at y brif gymdeithas yn Llundain.

ADOLYGIAD.—"*Gwerin-Eiriau Sir Gaernarfon.*"—Mae Myrddin Fardd yn parhau i wneuthur gwasanaeth gwerthfawr i'w oes a'i genedlaeth. Yr ydym wedi darllen ei lyfr gyda phleser a budd digymysg, a'r meddwl sy'n ymgynyg i mi yw, Pa'm na wnai rhyw rai waith cyffelyb yn mhob plwyf ac edrych ar ol yr hen eiriau gwerin a'u casglu a'u diogelu ar gyfer gwasanaeth yr oesau a ddel. Y mae llawer i air gwerin yn cynwys awgrymiadau hanes o ddyddordeb byw, ac yn fynych yn adlewyrchu cyflwr meddwl Cymru Fu mewn modd na cheir dim arall yn ei wneuthur.—*R.J.J.*

AT EIN GOHEBWYR. — Drwg genym orfod gadael allan o'r rhifyn lawer o faterion dyddorol, ac yn eu plith rhestr tanysgrifiadau at Gapel Glanrhondda. Hefyd marwgofion o Gellionen a Bwlchyfadfa.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR, THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ., CARMARTHEN.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq. W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & Co.,

THE ACKNOWLEDGED HOUSE

FOR

FURNITURE.

Rare Materials and Elaborate Workmanship are necessarily costly, but that the main essentials of a piece of Furniture—Beauty, Reliability, and Adaptability—may be secured at Low Prices, will be amply proved by an inspection of our Immense Stocks.

Inferior, badly-made Furniture is never CHEAP, no matter what its price may be.

We sell only such as we know will give satisfaction in use and afford gratification by its appearance, at prices which are Strictly Moderate and based entirely on the value of the materials used.

Our Show Rooms are now replete with the Finest Collection of Furniture and Furnishing Materials for all kinds of houses we have ever shown, and we respectfully invite intending purchasers to examine the same before placing their orders.

FURNITURE CATALOGUE (80 PAGES) FREE ON REQUEST. . . . .

Renovations & Removals. Estimates Free.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.